Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

Tachwedd 2023




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad Blynyddol 2022/23

Tachwedd 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

## Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod 2022/23:



**Rhys ab Owen AS**
Annibynnol
Plaid Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....7**

**2. Gweithgarwch deddfwriaethol....9**

Craffu ar is-ddeddfwriaeth....9

Y cefndir....9

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf....9

Camgymeriadau mewn rheoliadau....10

Craffu ar Filiau....12

Y cefndir....12

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf....12

Biliau Llywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig (Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol)....15

Y cefndir....15

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf....15

Bil Llywodraeth Cymru neu Fil Llywodraeth y DU: gallu Llywodraeth Cymru i ddeddfu....17

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)....20

Cytundebau rhynglywodraethol....21

Cydsyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Lywodraeth y DU....22

Y cefndir....22

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf....22

Hygyrchedd a chymhlethdod cyfraith Cymru....23

Y cefndir....23

Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf....23

Casgliadau....25

Canfyddiadau a phryderon ..... 25

Llwyddiannau a datblygiadau cadarnhaol ..... 29

Edrych tua'r dyfodol ..... 30

**3. Materion cyfansoddiadol a materion allanol ..... 32**

Cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol ..... 32

Hysbysiad bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel weinidogol ..... 32

Hysbysiad bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru ..... 32

Cysylltiadau rhynglywodraethol ..... 32

Fframweithiau cyffredin ..... 35

Gweithredu Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ..... 36

Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE ..... 38

Llywodraethiant y DU a'r UE ..... 38

Cynulliad Partneriaeth Seneddol ..... 39

Gwaith monitro ..... 39

Deddfwriaeth ..... 40

Cytundebau rhyngwladol ..... 41

Y cefndir ..... 41

Crynodeb o weithgarwch y Pwyllgor ..... 41

Craffu ar Gytuniadau Rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol eraill yn y 21ain ganrif ..... 42

Gweithio rhyngseneddol ..... 43

Casgliadau ..... 43

Canfyddiadau a phryderon ..... 43

Llwyddiannau a datblygiadau cadarnhaol ..... 45

Edrych tua'r dyfodol ....46

**4. Craffu ar faterion yn ymwneud a chyfiawnder ....48**

Crynodeb ....48

Arweinyddiaeth ac atebolrwydd o ran materion cyfiawnder ....48

Data ar droseddu a chyfiawnder ....49

Cefnogi’r sector cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder ....50

Tribiwnlysoedd Cymru ....51

Casgliadau ....52

Canfyddiadau a phryderon ....52

Llwyddiannau a datblygiadau cadarnhaol ....53

Edrych tua'r dyfodol ....53

**Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ....54**

**Atodiad B: Gweithio rhyngseneddol ....58**

# 1. Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gylch gorchwyl eang sy’n ymdrin ag amrywiaeth o feysydd. Bwriad yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi trosolwg o’r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor o’r hydref, 2022 hyd at ddiwedd toriad yr haf, 2023.

**1.** Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021[1] i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21 a Rheol Sefydlog 26C, ac i ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â deddfwriaeth sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad (gan gynnwys dyfodol cyfansoddiadol Cymru), cyfiawnder, a materion allanol, gan gynnwys newidiadau i’r setliad datganoli (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), a chysylltiadau rhynglywodraethol.

**2.** Yn ymarferol, golyga hyn fod ein gwaith yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn:

- craffu ar is-ddeddfwriaeth yn unol â Rheolau Sefydlog 21.2, 21.3 a 21.7(i);
- craffu ar Filiau o dan Reol Sefydlog 26 o fewn cylch gwaith polisi'r Pwyllgor;
- craffu ar bob Bil arall a gyflwynir i Senedd Cymru ond gan ganolbwyntio ar faterion penodol nad ydynt yn ymwneud â pholisi;
- craffu ar Filiau Cydgrynhoi o dan Reol Sefydlog 26C;
- craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 29, a memoranda cydsyniad offeryn statudol, yn unol â Rheol Sefydlog 30A;
- craffu ar is-ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig a datganiadau ysgrifenedig a osodir yn unol â Rheol Sefydlog 30C;

[1] Yn dilyn penderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Mehefin 2021 daeth y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Dros Dro yn Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

- craffu ar Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan Reolau Sefydlog 25, 27.6A neu 27.7B;
- ystyried effaith Biliau Llywodraeth y DU a Deddfau Senedd y DU ar ddatganoli a deddfau'r Senedd;
- craffu ar berthnasau rhynglywodraethol;
- craffu ar gytundebau anfasnachol rhyngwladol;
- goruchwylio a chraffu ar fframweithiau cyffredin;
- craffu ar y modd y caiff cytundebau rhwng y DU a'r UE, megis y Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, eu llywodraethu a'u rhoi ar waith;
- cynrychioli'r Senedd ar y Fforwm Rhyngseneddol ac fel sylwedydd ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu;
- craffu ar faterion sy'n gysylltiedig â chyfiawnder o fewn ein cylch gwaith gan gynnwys craffu ar y gyllideb;
- ymchwiliadau polisi yn unol â chylch gwaith y Pwyllgor a gytunwyd gan y Cyfarfod Llawn;
- gwaith rhyngseneddol i rannu gwybodaeth ac arbenigedd â seneddau eraill y DU.

**3.** Mae'n rhaid cyflawni llawer o'r gwaith craffu hwn yn unol ag amserlenni a therfynau amser a osodir naill ai gan Reolau Sefydlog y Senedd neu'r Pwyllgor Busnes. Mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i fod yn rhagweithiol o fewn ein cylch gwaith eang, ac mae ein hyblygrwydd i weithredu'n gyflym yn aml yn dibynnu ar ein llwyth gwaith deddfwriaethol. O ganlyniad i hyn, ar ddechrau'r Chweched Senedd penderfynwyd ystyried papurau (yn breifat) a oedd yn monitro datblygiadau ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn sicrhau y gallem weithredu ar faterion o bwys sy'n codi o fewn y cylch gwaith eang hwn fel y bo angen. Yn dilyn pob cyfarfod, cyhoeddir y papurau hyn fel adroddiadau monitro. Cyhoeddwyd chwe adroddiad o'r fath yn ystod y cyfnod adrodd.

**4.** Mae'r penodau a ganlyn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gennym yn ail flwyddyn y Senedd, gan ganolbwyntio ar ein canfyddiadau a'n pryderon, ein llwyddiannau craffu a datblygiadau cadarnhaol ac edrych tua'r dyfodol.

# 2. Gweithgarwch deddfwriaethol

## Craffu ar is-ddeddfwriaeth

### Y cefndir

**5.** Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wneud is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio pwerau a roddir iddynt mewn deddfau galluogi fel Deddfau’r Senedd, Mesurau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y DU. Cyfeirir at is-ddeddfwriaeth fel deddfwriaeth ddirprwyedig hefyd, am fod y Ddeddf alluogi yn dirprwyo'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r termau Saesneg '*subordinate legislation*' a '*secondary legislation*' fel ei gilydd yn golygu 'is-ddeddfwriaeth'

**6.** Mae mwyafrif is-ddeddfwriaeth Cymru yn cael ei gosod gerbron y Senedd ac ar ffurf rheoliadau neu orchmynion (mathau o offerynnau statudol).

**7.** Ein rôl yw ystyried is-ddeddfwriaeth yn erbyn meini prawf a nodir yn y mannau isod, a chyflwyno adroddiad i’r Senedd arni:

- Rheol Sefydlog 21.2 – mae'n rhaid i ni ystyried y materion hyn a chyflwyno adroddiad arnynt. Gelwir materion a adroddir o dan Reol Sefydlog 21.2 yn bwyntiau adrodd technegol sy'n ymdrin â materion megis a oes gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud yr is-ddeddfwriaeth dan sylw, eglurder y drafftio ac a yw'n ymddangos bod y drafftio yn ddiffygiol; a

- Rheol Sefydlog 21.3 – gallwn ni ystyried y materion hyn a chyflwyno adroddiad arnynt. Gelwir y materion a nodir o dan Reol Sefydlog 21.3 yn bwyntiau adrodd o ran rhinweddau ac maent yn ymdrin â materion fel pwyntiau sydd o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu rai sy'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

### Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

**8.** Rhwng mis Medi 2022 a mis Gorffennaf 2023 gwnaethom adrodd ar 134 (OS 233-366) o eitemau o is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys 80 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol a wnaed, tair i’r weithdrefn gadarnhaol a wnaed, a 30 i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft).

**9.** Wrth i chwech o'r eitemau o is-ddeddfwriaeth a ystyriwyd gael eu gosod gerbron y Senedd, torrwyd y rheol 21 diwrnod, sy'n golygu bod y ddeddfwriaeth wedi dod i rym lai na 21

diwrnod ar ôl iddi gael ei gosod. Rhoddir gwybod i'r Llywydd ac i'r Pwyllgor am achosion o dorri'r rheol hon yn unol ag adran 11A(4) o *Ddeddf Offerynnau Statudol 1946*. Gweler, er enghraifft, SL(6)305 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022 sy'n ymwneud â rheolaethau ar fewnforion i Gymru ar gyfer nwyddau glanweithiol a ffyto-iechydol.

**10.** Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22 dywedasom y byddwn, yn y flwyddyn i ddod, yn monitro rhesymeg Llywodraeth Cymru dros dorri'r rheol 21 diwrnod. Cafwyd chwe hysbysiad torri yn y cyfnod adrodd hwn mewn cyferbyniad â 49 o doriadau a amlygwyd yn ein hadroddiad blaenorol. Gellir esbonio'r dirywiad gan y ffaith, fel y nodwyd yn ein hadroddiad blynyddol, bod bron pob offeryn a dorrodd y rheol 21 diwrnod yn y cyfnod adrodd hwnnw yn gysylltiedig â'r pandemig COVID-19.

## Camgymeriadau mewn rheoliadau

**11.** Yn ystod y cyfnod adrodd blynyddol hwn, rydym wedi adrodd am 164 bwyntiau technegol o dan Reol Sefydlog 21.2(vi) lle'r oeddem o'r farn bod drafftio'r is-ddeddfwriaeth yn ymddangos yn ddiffygiol, neu ei bod yn methu â bodloni gofynion statudol. Gwnaethom hefyd ystyried, heb fod wedi adrodd ar, ddau offeryn gweithdrefn gadarnhaol drafft – SL(6)315 - Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 a SL(6)325 - Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 – a fyddai, rhyngddynt, wedi cael 31 pwynt adrodd technegol. Fodd bynnag, tynnodd Llywodraeth Cymru yr offerynnau drafft yn ôl cyn i ni adrodd yn ffurfiol.

**12.** Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaethom ystyried ac adrodd ar ddau ddarn o is-ddeddfwriaeth, y ddau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, yr oeddem yn ystyried ei bod yn cynnwys drafftio diffygiol: SL(6)291 - Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (y Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid) a SL(6)292 - Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (Rheoliadau *TARP*).

**13.** Roedd ein hadroddiad ar y Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn cynnwys pum pwynt adrodd technegol, dau ohonynt yn tynnu sylw at ddrafftio diffygiol a thri oedd yn nodi anghysondebau rhwng testunau Cymraeg a Saesneg. Gellir dod o hyd i'n hadroddiad a'r ohebiaeth gysylltiedig â'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar ein tudalennau ar y we (linc uchod yn y paragraff blaenorol).

**14.** Roedd ein hadroddiad ar Reoliadau *TARP* yn cynnwys 27 pwynt adrodd technegol, pump ohonynt yn tynnu sylw at ddrafftio diffygiol a 10 oedd yn nodi anghysondebau rhwng testunau

Cymraeg a Saesneg. Unwaith eto, mae ein hadroddiad a'r ohebiaeth gysylltiedig â'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd i'w gweld ar ein tudalennau ar y we (linc uchod ym mharagraff 12).

**15.** Roedd ein pryderon o ran y ddwy set o Reoliadau yn canolbwyntio ar y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Senedd gymeradwyo is-ddeddfwriaeth oedd yn wybodus ddiffygiol. Cynhaliwyd dadleuon llawn ar y ddwy set o Reoliadau ar 13 Rhagfyr 2022.

**16.** Arweiniodd ein hystyriaeth o'r Rheoliadau hyn i ni edrych yn fanylach ar sut y gellid gwneud cywiriadau i ddarnau o is-ddeddfwriaeth – a sut y maen nhw'n cael eu gwneud – ar ôl iddynt gael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Senedd. Mae tryloywder y prosesau hyn yn effeithio ar hygyrchedd y gyfraith fel y mae'n gymwys yng Nghymru, ac rydym yn gwneud sylwadau arno yn ddiweddarach yn y Bennod hon.

**17.** Gwnaethom ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Cwnsler Cyffredinol), Mick Antoniw AS, ar 21 Rhagfyr 2022 a chawsom ymateb ar 18 Ionawr 2023. Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol amlinellu dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o gywiro gwallau, a chynnwys y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer y gwahanol opsiynau ar gyfer cywiro. Derbyniodd y Cwnsler Cyffredinol bod 'cywiro wrth wneud' a 'chywiro wrth gyhoeddi' yn dermau sy'n cael eu defnyddio er hwylustod gan Lywodraeth Cymru, ond nad ydynt yn ddisgrifiadau cwbl fanwl gywir o'r pwynt y gwneir y cywiriadau. Gwnaethom ysgrifennu eto at y Cwnsler Cyffredinol ar 6 Chwefror 2023 yn gofyn am eglurhad pellach ar rai materion, ac ymatebodd ar 15 Chwefror 2023. At hynny, gwnaethom ysgrifennu at Gofrestrydd yr OSau yn yr Archifau Gwladol ar 21 Rhagfyr 2022 i ofyn am wybodaeth, ond nid ydym wedi cael ymateb, hyd yn hyn.

**18.** At hynny, gwnaeth ein hystyriaeth o SL(6)363 - Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 yn ystod y gwanwyn/haf 2023 ein harwain i edrych yn fanylach ar brosesau sicrhau ansawdd Llywodraeth Cymru cyn gosod is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd. Gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS, ar 14 Mawrth 2023, a chawsom ymateb ar 23 Mawrth 2023. At hynny, codwyd y materion hyn gyda'r Cwnsler Cyffredinol pan ymddangosodd gerbron ein Pwyllgor ar 10 Gorffennaf 2023 ar gyfer sesiwn graffu gyffredinol.

## Craffu ar Filiau

### Y cefndir

**19.** Fel rhan o'n cylch gwaith cyffredinol, rydym yn ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth. Mae ein gwaith craffu cyffredinol ar Filiau, yn unol â'n cylch gwaith, yn canolbwyntio ar nifer o faterion penodol:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol gan gynnwys cydymffurfiaeth â hawliau dynol;
- yr angen am ddeddfwriaeth;
- y cydbwysedd rhwng y darpariaethau ar wyneb y Bil a'r hyn a ddirprwyir i Weinidogion Cymru ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth, a'r weithdrefn sydd ynghlwm wrth bob pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth;
- yr angen i gydgrynhoi (os yw'n berthnasol) a materion eraill sy'n ymwneud â hygyrchedd y llyfr statud; a hefyd
- ansawdd cyffredinol y ddeddfwriaeth.

### Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

**20.** Ers mis Medi 2022, rydym wedi cwblhau ein gwaith craffu ar chwe bil sydd wedi'u cyflwyno i'r Senedd gan Lywodraeth Cymru:

- y Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru);
- y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru);
- y Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru);
- y Bil Amaethyddiaeth (Cymru);
- y Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru); a hefyd
- y Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

**21.** At ei gilydd, gwnaethom 121 o argymhellion mewn cysylltiad â'r Biliau hyn. Gellir dod o hyd i ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hyn ar y dudalen we ar gyfer y Bil perthnasol. Roedd ein hargymhellion, er enghraifft:

- yn anelu at fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â natur Fframwaith rhai biliau drwy ofyn am fwy o fanylion ar wyneb y Bil a bod pwerau sy'n cael eu cymryd yn rhai at ddiben diffiniedig;

- yn gofyn am esboniadau gan y Gweinidog perthnasol am sut a phryd yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio pwerau yr oedd yn ceisio cael ei ddirprwyo o'r Senedd, rhai yr oeddem yn ystyried eu bod yn rhy eang neu yn cael eu cymryd 'rhag ofn' y byddant yn ddefnyddiol yn y dyfodol;

- yn gofyn am newidiadau i weithdrefnau arfaethedig ynghlwm wrth wneud is-ddeddfwriaeth, er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer cynnal rhagor o waith craffu gan y Senedd; a hefyd

- ceisio gwella hygyrchedd deddfwriaeth gan gynnwys drwy awgrymu'r defnydd o adrannau trosolwg er mwyn helpu i egluro sut y bwriedir i'r ddeddfwriaeth weithio, yn enwedig mewn perthynas â Deddfau eraill sy'n cael eu diwygio.

**22.** At hynny, gwnaethom gynnal gwaith craffu ar Fil Aelod – sef Bil Bwyd (Cymru) a gyflwynwyd gan Peter Fox AS.

**23.** At hynny, cyflwynwyd Bil Seilwaith (Cymru) ym mis Mehefin 2023 a'n dyddiad cau ar gyfer adrodd yw 24 Tachwedd 2023.

**24.** Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22, ac yng ngoleuni ein gwaith craffu ar y Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu), gwnaethom ddweud y byddem yn monitro'r defnydd o filiau sgerbwd neu fframwaith nad ydynt yn cynnwys digon o fanylion ar wyneb y Bil, ac felly'n dirprwyo pwerau helaeth i Weinidogion Cymru, gan wyro'r cydbwysedd pŵer yn ormodol tuag at y weithrediaeth.

**25.** O'r chwe Bil yr ydym wedi'u hystyried, gwnaethom ddisgrifio 3 fel Biliau fframwaith, neu bod elfennau fframwaith iddynt:

- y Bil Amaethyddiaeth (Cymru);

- y Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru); a hefyd

- y Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

**26.** Fel y nodwyd eisoes, rydym wedi gwneud argymhellion i gryfhau'r weithdrefn sydd ynghlwm wrth bwerau dirprwyedig fel ffordd o ddarparu rhagor o gyfleoedd i gynnal gwaith craffu mwy cadarn. Mewn sesiwn dystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau)

(Cymru), ymddangosodd bod y Gweinidog Newid Hinsawdd, yn awgrymu y dylai'r dewis o weithdrefn ar gyfer pwerau dirprwyedig fod yn seiliedig ar lefel y diddordeb sy'n debygol o gael ei ddangos gan Aelodau o'r Senedd mewn dadl ddilynol. Mewn ymateb, tynnodd ein adroddiad sylw at bwysigrwydd yr Aelodau yn cael cyfle i wneud sylwadau ar bolisi sylweddol sydd wedi'i gynnwys mewn rheoliadau, yn enwedig mewn amgylchiadau lle y gallai materion o'r fath fod wedi'u cynnwys yn fwy priodol ar wyneb y Bil.

**27.** Ym mis Gorffennaf 2022, dywedodd y Prif Weinidog y byddai Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) yn ddarostyngedig i waith craffu cyflym. Cyflwynwyd y Bil ym mis Medi 2022 gyda'i holl gamau wedi'u cwblhau mewn llai na thri mis o'i gyflwyno. Cododd ein adroddiad ym mis Hydref 2022 ar gyfer y ddadl Cyfnod 1, nifer o faterion pwysig. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynu cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros geisio defnyddio'r broses gyflym, a hefyd ceisio atebion am effaith *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (Deddf Marchnad Fewnol y DU) ar effeithiolrwydd y gyfraith *wedi* iddi gael ei gwneud gan y Senedd (rydym yn ystyried y mater hwn yn benodol ym Mhennod 3 yr adroddiad).

**28.** Nododd ein hadroddiad ein pryderon difrifol y byddai hepgor proses Cyfnod 1 yn cael effaith negyddol ar y gwaith craffu deddfwriaethol ar y Bil hwn. Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil, amlinellodd y Gweinidog ddau "reswm da" dros gyflymu'r Bil:

> "*Yn gyntaf, roedd y rheidrwydd o ran diogelu'r amgylchedd, ac yn ail, cais y Llys Apêl am gyd-destun deddfwriaethol i ystyried y dadleuon sy'n cael eu datblygu gan y Cwnsler Cyffredinol yn y cais (a oedd yn parhau bryd hynny) am adolygiad barnwrol o UKIMA.*"

**29.** Ym mis Tachwedd 2021, gwnaethom ddilyn ein pryderon mewn gohebiaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd (ymateb gan y Gweinidog). At hynny, gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes gan ofyn iddo amlinellu ein pryderon, ac yn dilyn cyfarfod gyda'r Cadeirydd, gwnaeth y Llywydd ofyn i swyddogion ddrafftio adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Busnes sy'n manylu ar y gwersi a ddysgwyd o'r broses graffu ar y Bil, i'w ddefnyddio os bydd ceisiadau yn y dyfodol ar gyfer cynnal gwaith craffu ar Fil yn gyflym.

**30.** Yn ein hadroddiad blynyddol blaenorol fe wnaethom hefyd ddweud y byddem yn monitro gweithrediad *Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022*. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw reoliadau wedi'u gwneud o dan y ddeddf honno.

## Biliau Llywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig (Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol)

### Y cefndir

**31.** Fel rhan o'n cylch gwaith cyffredinol, rydym yn ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth. Un agwedd ar y cyfrifoldeb eang hwn yw ystyried yr holl femoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Biliau Llywodraeth y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd).

### Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

**32.** Mae craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol wedi cyfrif, unwaith eto, am gyfran helaeth o'n rhaglen waith. Ers mis Medi 2022, rydym wedi ystyried 36 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn ymwneud â 17 o Filiau'r DU, ac rydym wedi llunio 28 o adroddiadau. Mae'r rhain wedi cynnwys Biliau sy'n gwneud darpariaeth sylweddol mewn meysydd datganoledig megis llesiant anifeiliaid (28 cymal), caffael (dros 100 cymalau) a thai cymdeithasol (dros 30 cymal).

**33.** Yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf, ar gyfer y cyfnod Mai 2021 hyd ddiwedd toriad yr haf yn 2022, nodwyd ein bod wedi ystyried 44 memoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn ymwneud â 21 o Filiau'r DU, a chynhyrchu 30 adroddiad.

**34.** Wrth i ni ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol, rydym wedi gwneud 80 o argymhellion. Mae'r materion dan sylw yn debyg iawn i'r rheini a amlinellir ym mharagraff 31 o'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/2022. Yn benodol, rydym hefyd wedi cael pryderon ynghylch ansawdd rhai memoranda (er enghraifft mewn perthynas â'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio), a all mewn rhai amgylchiadau amharu ar allu pwyllgor i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn llawn yn yr amser sydd ar gael. Ar 29 Mehefin 2023, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Ynni, tua 49 wythnos yn ddiweddarach na'r disgwyl o ofynion Rheol Sefydlog 29.1. Gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd ar 3 Gorffennaf 2023 ac yn unol â hynny, clywed tystiolaeth ar 10 Gorffennaf 2023 am y rhesymau dros yr oedi.

**35.** Yn ein adroddiad ar gyfer 2021/22, gwnaethom ddweud hefyd y byddem yn parhau i fonitro dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio Biliau Llywodraeth DU i ddeddfu mewn meysydd

datganoledig, gan gynnwys craffu ymhellach ar y materion a godwyd yn llythyr y Cwnsler Cyffredinol ar 4 Awst 2022.

**36.** Pan fydd Llywodraeth Cymru yn paratoi Bil i'w gyflwyno i'r Senedd, mae nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn cael eu gosod arnynt i asesu'r effaith y bydd y ddeddfwriaeth yn ei chael ar amcanion polisi ehangach, y gellir eu cynnwys mewn Memorandwm Esboniadol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y dyletswydd economaidd-gymdeithasol;
- ystyried hawliau plant o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011;
- cyflawni'r amcanion llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- asesiad o'r Effaith ar Iechyd o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017; a hefyd
- dyletswyddau o ran y Gymraeg; ac
- asesiad o'r effaith ar fioamrywiaeth.

**37.** Gwnaethom holi'r Cwnsler Cyffredinol ar y materion hyn yn ystod y sesiwn tystiolaeth ar 10 Gorffennaf 2023, a gwnaeth swyddog oedd yno gydag ef gadarnhau bod y cyngor a roddwyd i Weinidogion ar Filiau'r DU yn cynnwys cyngor ar faterion fframwaith polisi trawsbynciol fel mater o drefn, gyda'r Cwnsler Cyffredinol yn ychwanegu y gallai materion perthnasol gael eu codi gyda Llywodraeth y DU.

**38.** Ni chytunodd y Senedd ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) yn dilyn dadl ar 17 Ionawr 2023. Fodd bynnag, daeth ein adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r casgliad nad oedd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil gan nad yw'n gwneud darpariaeth berthnasol mewn perthynas â Chymru. Er bod y Pwyllgor yn cytuno â dadansoddiad Llywodraeth Cymru o effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ar gyfraith bresennol Cymru yn dilyn y newidiadau a gynigiwyd ar gyfer Lloegr yn y Bil hwn (gweler Pennod 3), gwnaethom ddynodi bod y mater y tu allan i gwmpas Rheol Sefydlog 29 ac awgrymu y gellid bod wedi defnyddio Rheolau Sefydlog eraill i drafod pwnc y Memorandwm.

**39.** Un agwedd ar graffu ar y defnydd o Filiau'r DU i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig fu ystyried sut mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ac rydym yn ystyried y mater hwn ym Mhennod 3.

**40.** Fodd bynnag, ac er bod gennym bryderon am y broses yn gyffredinol, bu rhai datblygiadau cadarnhaol.

**41.** Ym mis Tachwedd 2022, gwnaeth Penny Mordaunt AS, Arweinydd Tŷ'r Cyffredin ar y pryd, roi tystiolaeth i Bwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin. Gofynnwyd i Ms Mordaunt am y broses gydsynio, ac a fyddai'n cefnogi ei gwneud yn gliriach mewn nodiadau esboniadol a oes angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (o safbwynt Llywodraeth y DU). Dywedodd Ms Mordaunt y byddai'n cefnogi hyn, a hefyd ei bod wedi gweld y broses a deall y rhwystredigaethau, a lle y gallan nhw wneud gwelliannau, eu bod nhw'n amlwg am wneud hynny.

**42.** Ym mis Mawrth 2023, gwnaeth y Farwnes Drake, Cadeirydd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, ein hysbysu bod dogfen Busnes Tŷ'r Arglwyddi bellach yn rhoi gwybodaeth lawnach ac amlycach ynghylch pryd y mae cydsyniad deddfwriaethol yn yr arfaeth neu'n cael ei herio, a phryd y cafodd ei roi neu ei ddal yn ôl. Croesawyd y newid hwn yn fawr a gobeithiwn y gellir rhoi newidiadau cadarnhaol eraill ar waith hefyd.

**43.** At hynny, yn ein hadroddiad ar gyfer 2021/22, gwnaethom ymrwymo i ystyried canlyniad adolygiad y Pwyllgor Busnes o'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Hyd yn hyn, nid yw'r adolygiad hwn wedi'i gwblhau.

## Bil Llywodraeth Cymru neu Fil Llywodraeth y DU: gallu Llywodraeth Cymru i ddeddfu

**44.** Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22, gwnaethom ymrwymo i gynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ar ei gallu i ddeddfu o ganlyniad i'n sylwadau ym mlwyddyn gyntaf y Chweched Senedd.

**45.** O ganlyniad, gwnaethom gynnal sesiwn ar y cyd gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Ysgrifennydd Parhaol, Dr Andrew Goodall ar 10 Hydref 2022, gan ganolbwyntio ar a yw pryderon ynghylch galluedd wedi dylanwadu ar Lywodraeth Cymru wrth benderfynu a ddylid defnyddio Bil Cymru neu'r DU i ddeddfu. Gwnaethom ddilyn y sesiwn dystiolaeth drwy gyfnewid gohebiaeth ar 20 Hydref 2022 a 9 Tachwedd 2022.

**46.** Yn ystod y sesiwn, pwysleisiodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Ysgrifennydd Parhaol y mater o gapasiti ac adnoddau sydd eu hangen yng nghyd-destun y rhaglen lywodraethu a'r rhaglen ddeddfwriaethol, yr amlygwyd ganddynt fel bod yn flaenoriaethau. Gwnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ddweud wrthym mai ei gyfrifoldeb ef yw trefnu'r adnoddau o fewn cyd-destun y rhaglen lywodraethu a hefyd, cyn iddo ddechrau yn ei swydd, efallai ei fod wedi teimlo, ar brydiau, fod y rhaglen ddeddfwriaethol yn cystadlu â blaenoriaethau eraill. At hynny, dywedodd

wrthym bod myfyrdodau diweddar, mwy na thebyg, yn canolbwyntio ychydig yn fwy ar sicrhau bod yna graidd o unigolion arbenigol ar gael iddynt, a bod hynny'n nifer uwch na'r unigolion sydd gyda ni.

**47.** At hynny, gwnaethom holi'r Cwnsler Cyffredinol am ystyr ei sylwadau yn ei lythyr dyddiedig 4 Awst 2022, pan ddywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio Bil y DU i ddeddfu os nad oes amser i gyflwyno tebyg yn y Senedd. Dywedodd wrthym:

> *"What I mean is there may be an issue that emerges in a Bill that is being decided by the UK Government, so it's not something that we have proactively sought, but it may be that there's an element in it that relates to or that is beneficial to Wales. Now, the question is there of priorities. If it's something that was a very, very high priority, then we might consider whether to legislate. Otherwise, if it doesn't fall above the priorities you already have within the legislative programme and it's something that you would like to do, you might include it in a future legislative programme. And the choice you have to make is: well, we could legislate in this area, we may not be able to legislate in this area for a period of time; would the people of Wales be advantaged or disadvantaged by allowing or consenting to a legislative measure within a UK Government Bill? So, it's not something that we're asking them to legislate on on our behalf, but just that we would be almost cutting our nose off to spite our face by not taking that opportunity."*

**48.** Gwnaethom archwilio i ba raddau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio deddfwriaeth gyflym yn lle hynny. Mewn ymateb, dywedodd:

> *"The consequence of what you're suggesting is that, effectively, we divert an enormous part of our capacity to legislate to what is determined by the UK Government in terms of what their priorities are and what their legislative programme is. So, if our role is solely to listen to what the UK Government decides is important in legislation, and then everything that they raise that might impact within Wales we then say, 'Oh well, in that case what are we going to do on this, because we think this is actually something that might be beneficial? We're going to legislate and therefore we divert our resources to that,' now that's an issue. That might raise an issue as to whether you have 100 per cent capacity to do anything and everything you want at any stage in response to that, but I don't think that's the position we're in."*

**49.** At hynny dywedodd wrthym:

> *“… we determine our priorities by virtue of the manifesto we have and our own legislative programme. That is what our priority is. The things that emerge out of the UK Government's legislative programme are the things that we have to make judgments on in terms of either the legislative consent process or in terms of the refusal of legislative consent and a decision as to whether or not we might, at some stage, either on an emergency basis or some stage in the future, legislate ourselves.”*

**50.** At hynny, rydym wedi archwilio'r materion yng nghyd-destun Biliau unigol sy’n destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol.

**51.** Ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethi annomestig, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS, fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio darpariaethau yn y Bil i Gymru “lle y mae nodau polisi yn cyd-fynd, a lle y ceir budd drwy sicrhau dulliau o gynorthwyo talwyr ardrethi cyn gynted ag y bo modd”. Cadarnhaodd y Gweinidog i'r Pwyllgor y ceisiwyd darpariaethau yn y Bil i Gymru ar 20 Mehefin 2022. Mae hyn er gwaetha’r ffaith i’r Cwnsler Cyffredinol ddweud wrthym ym mis Ionawr 2023 nad oedd yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ei rhan.

**52.** Yn ogystal â hyn, gwnaethom godi pryderon o ran bod cymal yn y Bil Ardrethi Annomestig wedi newid y weithdrefn ar gyfer pŵer deddfu o’r weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’ i weithdrefn gadarnhaol ‘ddrafft’, er mai ond yn ddiweddar y cafodd y pŵer hwnnw ei roi i Weinidogion Cymru gan y Senedd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Amlinellodd y Gweinidog gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros wneud y newid mewn llythyr i ni ar 1 Mehefin 2023. Daeth ein adroddiad dilynol yn hwyrach y mis hwnnw i’r casgliad bod y manylion ychwanegol hyn a ddarparwyd gan y Gweinidog i'w groesawu, ond nododd hefyd ei bod yn anffodus bod y Gweinidog yn ceisio defnyddio Bil y DU i newid y weithdrefn graffu ar gyfer pŵer deddfu y cytunodd y Senedd i'w ddirprwyo i Weinidogion Cymru ychydig dros ddwy flynedd yn ôl. Mewn ymateb i argymhelliad yn gofyn a ystyriwyd opsiynau i ddefnyddio deddfwriaeth a gyflwynwyd i'r Senedd i wneud y newid, atebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

> *“Gallaf gadarnhau, wrth bennu'r ffordd orau ymlaen, fod Llywodraeth Cymru wedi gweld nad oedd cyfrwng deddfwriaethol Seneddol a fyddai'n addas i fynd i'r afael â'r mater hwn o fewn yr un terfyn amser, ac na fyddai modd creu cyfrwng o'r fath heb gael effaith niweidiol anghymesur ar ein rhaglen ddeddfwriaethol ehangach.”*

**53.** Defnyddiwyd cyfiawnhad tebyg mewn ymateb i'n adroddiad cyntaf ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd yn cydnabod, er y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu cyflwyno ei deddfwriaeth sylfaenol ei hun sy'n cwmpasu darpariaethau data cynllunio ac adroddiadau ar ganlyniadau amgylcheddol, fod y rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei gosod gan ddatganiad y Prif Weinidog.

**54.** Yn ein adroddiad ym mis Ebrill 2023 ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus, gwnaethom nodi farn y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS, nad oedd cyfrwng deddfwriaethol amlwg yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil priodol. Mewn ymateb i'n cais am eglurhad ynghylch pam nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei Bil ei hun ar y mater hwn, o ystyried yr ymrwymiadau yn ei Rhaglen Lywodraethu, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"My officials explored the option of the Welsh Government bringing forward its own Bill very seriously, but it became clear that this would not have been a timely option in this case. I was also informed that bringing forward our own legislation through the Senedd, with an aim of a similar commencement date to the UK Bill, would have had detrimental impacts on the delivery of other Bills, which I considered unacceptable. (…)*
>
> *I do not have concerns regarding the Senedd's legislative competence to pass its own legislation on this matter. As stated, it has simply been a case of timing and resources available to match the fast progress of the UK Private Members Bill in this case."*

**55.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 10 Gorffennaf 2023, gwnaethom olrhain y mater o ddefnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, y prosesau a ddilynir gan Lywodraeth Cymru wrth ymgysylltu â Llywodraeth y DU a sut y gellid gwella'r gwaith craffu gan gynnwys trwy ddefnyddio proses ddeddfwriaethol gyfochrog bosibl.

## Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

**56.** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi treulio cryn dipyn o amser yn craffu ar oblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (y Bil *REUL*) – erbyn hyn, Deddf Cyfraith yr UE a ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Deddf *REUL*) – i Gymru.

**57.** Roedd hyn yn golygu cynnal gwaith craffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil *REUL* (a osodwyd rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mai 2023).

**58.** Daethom i sawl casgliad trawiadol yn ein hadroddiad ym mis Chwefror 2023 ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) gan gynnwys:

- ni allem or-ddweud ein pryderon ynghylch yr effaith y gallai’r Bil hwn ei chael ar sicrwydd ac ansawdd y gyfraith fel y mae’n gymwys yng Nghymru (casgliad 1);
- roeddem yn bryderus iawn nad yw darpariaethau’r Bil yn ymgysylltu’n ddigonol nac yn cydnabod rôl deddfwrfa mewn democratiaeth seneddol (casgliad 2); ac
- roedd angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu ar frys â’r Senedd a chydgysylltu’n agos â hi ar oblygiadau’r Bil ar raglen lywodraethu Llywodraeth Cymru a’r effaith ar fusnes y Senedd (casgliad 6).

**59.** Yn dilyn penderfyniad Senedd y DU i basio'r Bil a'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei deddfu wedi hynny, rydym wedi ceisio gwybodaeth bellach yn rheolaidd ac fel mater o drefn gan Lywodraeth Cymru, am ei bwriadau ar gyfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf *REUL*, a gofyn am wybodaeth ar sut mae Llywodraeth y DU yn rhannu gyda Llywodraeth Cymru ei chynlluniau a'i chynigion ar gyfer arfer pwerau yn y Ddeddf.

**60.** Rydym wedi cyfnewid sawl eitem o ohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol, a buom yn trafod Deddf *REUL* yn ystod ein sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 10 Gorffennaf 2023.

## Cytundebau rhynglywodraethol

**61.** Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22 gwnaethom ddweud y byddem, yn y flwyddyn ganlynol, yn monitro'r defnydd o gytundebau rhynglywodraethol.

**62.** Yn ei lythyr dyddiedig 5 Medi 2022, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol gyfres o ymrwymiadau mewn perthynas â chyhoeddi cytundebau rhynglywodraethol.

**63.** Rydym wedi nodi bod memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer rhai o Filiau'r DU wedi cyfeirio at greu memoranda cyd-ddealltwriaeth. Er enghraifft:

- y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus;
- y Bil Esgyll Siarcod; a hefyd
- y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).

**64.** Nid yw'n ymddangos bod tudalen berthnasol Llywodraeth Cymru ar y we yn cael ei chadw'n gwbl gyfredol.

## Cydsyniad Llywodraeth Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Lywodraeth y DU

### Y cefndir

**65.** Mae ein cylch gwaith yn cynnwys ystyried is-ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Craffu ar femoranda cydsyniad offeryn statudol Llywodraeth Cymru; megis memoranda sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac y mae angen cydsyniad y Senedd (Rheol Sefydlog 30A) yn ei chylch; ac
- ystyried datganiadau ysgrifenedig Llywodraeth Cymru sy'n hysbysu'r Senedd ei bod wedi cydsynio i wneud offerynnau statudol gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* (Rheol Sefydlog 30C). Daeth y pŵer perthnasol yn Neddf 2018 i ben ar 31 Rhagfyr 2022.

**66.** Yn ogystal â'r gwaith rydym yn ei gyflawni yn unol â Rheolau Sefydlog, rydym yn ystyried hysbysiadau Llywodraeth Cymru sy'n nodi ei bod yn bwriadu cydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru. Rhoddir hysbysiadau o'r fath i'r Pwyllgor yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog, a roddwyd ym mis Tachwedd 2021, y tynnir sylw ato yn ein hadroddiad ar y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol (gweler paragraffau 113 a 114 ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn).

### Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

**67.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i'r nifer a ganlyn o Offerynnau Statudol Llywodraeth y DU (ac wedi rhoi gwybod i ni amdanynt):

- Rheol Sefydlog 30A Memoranda cydsyniad offeryn statudol: 2
- Hysbysiadau Rheol Sefydlog 30C: 11
- Pob hysbysiad arall ynghylch cydsyniad: 17

**68.** Trafodir hysbysiadau cydsyniad sy'n ymwneud â chydsynio i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru ym Mhennod 3.

## Hygyrchedd a chymhlethdod cyfraith Cymru

### Y cefndir

**69.** Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22, gwnaethom ddweud y byddem, yn y flwyddyn sydd i ddod, yn parhau i ystyried sut y gall ein gwaith gyfrannu at esbonio cymhlethdodau cynyddol y gyfraith yng Nghymru, a thynnu sylw atynt, a pha fesurau y gellir eu cymryd, os o gwbl, i wella ei hygyrchedd.

**70.** At hynny, gwnaethom ddweud y byddem yn defnyddio ein profiadau o'r flwyddyn gyntaf o weithredu, a'r prif faterion a godwyd gan arbenigwyr yn ein digwyddiad ar 13 Mehefin 2022, i helpu i lywio’r gwaith o graffu ar y ffordd gymhleth yr eir ati i ddeddfu yng Nghymru.

**71.** Fel y nodwn uchod, mae yna lawer o ffyrdd y gellir effeithio ar hygyrchedd cyfraith Cymru, p'un a yw hynny'n ddiffyg tryloywder ynghylch sut y gwneir cywiriadau i is-ddeddfwriaeth ar ôl i'r Senedd roi ei chymeradwyaeth, diffyg manylion ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol, neu seneddau gwahanol y DU yn gwneud deddfwriaeth i Gymru yn yr un meysydd pwnc.

### Gwaith craffu dros y flwyddyn ddiwethaf

**72.** Mae nifer o’n hadroddiadau ar reoliadau a osodwyd gerbron y Senedd wedi cynnwys pwyntiau adrodd sydd wedi’u gwneud oherwydd ein bod o’r farn bod angen eglurhad pellach ynghylch rhywbeth ar ffurf offeryn statudol, neu ystyr offeryn statudol (Rheol Sefydlog 21.2(v)), oherwydd ein bod o’r farn bod yr offeryn yn cynnwys drafftio diffygiol (Rheol Sefydlog 21.2(vi)), neu oherwydd ein bod yn ystyried ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg (Rheol Sefydlog 21.2(vii)). Mae ein hadroddiadau yn tynnu sylw’r Senedd a Llywodraeth Cymru at y materion hyn gyda’r nod o sicrhau bod cyfraith sydd wedi’i drafftio’n dda yn cael ei chymeradwyo gan y Senedd a/neu ei gwneud gan Lywodraeth Cymru.

**73.** Fel enghraifft, yn ein hystyriaeth o SL(6)272 - Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2022, gwnaethom gyflwyno adroddiad i’r Senedd ar dri mater o dan Reol Sefydlog 21.2(v), pum mater o dan Reol Sefydlog 21.2(vi), a thri mater o dan Reol Sefydlog 21.2(vii). Un mater y tynnwyd sylw Llywodraeth Cymru ato oedd problem bosibl o ran sut y defnyddiwyd cyfeiriadau at “faethu preifat” yn y Rheoliadau ac a oedd yn debygol y byddai dryswch yn cael ei beri. Tra’r oedd Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai’r drafftio’n “cynorthwyo darllenydd sy’n gyfarwydd â’r derminoleg a ddefnyddir yng nghyfraith Cymru a Lloegr”, roedd yn bwysig bod y mater yn cael ei godi a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o eglurder.

**74.** Fel yr amlygwyd gennym uchod, ym mharagraffau 16 i 18, rydym hefyd wedi ceisio edrych yn agosach ar sut mae cywiriadau'n cael eu gwneud i ddarnau o is-ddeddfwriaeth ar ôl iddynt gael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Senedd. Bu'n destun pryder i ni bod tryloywder y prosesau hyn yn effeithio ar hygyrchedd y gyfraith fel y mae'n gymwys yng Nghymru.

**75.** At hynny, rydym wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch hygyrchedd Biliau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac wedi awgrymu defnyddio adrannau trosolwg i wella gallu'r sawl sy'n darllen y ddeddfwriaeth i'w llywio'n haws, yn enwedig mewn amgylchiadau lle mae Biliau'n ceisio diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol (gweler, er enghraifft, ein adroddiad ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)). Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cefnogi defnyddio adrannau trosolwg at y diben hwnnw.

**Ystyriaeth ar Fil Cydgrynhoi cyntaf Cymru**

**76.** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cwblhawyd ein hystyriaeth o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), sef y Bil Cydgrynhoi cyntaf a ystyriwyd gan y Senedd o dan Reol Sefydlog 26C.

**77.** Fel y gwnaethom ddweud yn ein adroddiad ym mis Rhagfyr 2022, roeddem yn cydnabod pwysigrwydd y Bil fel y cyntaf o'i fath ar gyfer y Senedd ac ar gyfer cyfraith Cymru. At hynny, gwnaethom nodi yn ein adroddiad bod cydgrynhoi cyfraith Cymru yn cynnig potensial i wella'n sylweddol hygyrchedd i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Roedd ein rôl yn ystyriaeth y Senedd o'r Bil Cydgrynhoi cyntaf yn ystyried y manteision posibl hyn ac roeddem yn gobeithio bod ein hymagwedd yn dangos y pwysigrwydd a roddwn i'r cyfrifoldeb a roddwyd i ni ar gyfer Biliau Cydgrynhoi a gyflwynwyd i'r Senedd.

**78.** Fel y pwyllgor sy'n gyfrifol am yr holl Filiau Cydgrynhoi, cynhaliom ystyriaeth gychwynnol o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ac o ganlyniad gwnaethom argymhelliad i'r Senedd y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi. Yn dilyn hynny, roeddem yn gyfrifol am graffu fesul llinell ar y Bil yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor a oedd yn cynnwys cyflwyno gwelliannau i'r Bil a phleidleisio arnynt.

**79.** Mae nifer o wahaniaethau rhwng y gweithdrefnau sy'n ymwneud â chraffu ar Filiau Cydgrynhoi a Biliau cyhoeddus a gyflwynir i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 26. Un gwahaniaeth o'r fath yw nad yw ail gam diwygio yn orfodol yn achos Biliau Cydgrynhoi, a rôl y pwyllgor cyfrifol yw gwneud argymhelliad i'r Senedd ynghylch a oes angen yr ail gam hwnnw. Yn achos Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), gwnaethom argymell y dylid caniatáu i'r Bil symud ymlaen yn syth i'r Cyfnod Terfynol.

### Ystyried diwygio'r gyfraith caffael sy'n gymwys yng Nghymru

**80.** Mae ein hystyriaeth o dair eitem benodol o ddeddfwriaeth sylfaenol wedi codi materion ynghylch cymhlethdod cyfraith Cymru. Buom yn ystyried y canlynol:

- memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd mewn perthynas â Bil Caffael Llywodraeth y DU, a fydd yn diwygio'r prosesau sy'n sail i gaffael yng Nghymru;
- y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) Llywodraeth Cymru, oedd yn cynnwys darpariaethau ar gaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol; a hefyd
- y Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) Llywodraeth Cymru, fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau penodol o Fil Caffael Llywodraeth y DU, ac i roi eu trefn gaffael eu hunain ar waith ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

**81.** Daethom i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cyflwyno ei deddfwriaeth sylfaenol ei hun i ddiwygio'r prosesau sy'n sail i gaffael yng Nghymru, er budd deddfwriaeth gwbl hygyrch, ac er mwyn osgoi'r angen am eitem ar wahân o ddeddfwriaeth ar y llyfr statud ar ffurf Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

## Casgliadau

### Canfyddiadau a phryderon

**82.** Mae'n destun pryder i ni bod nifer fawr o wallau yn parhau i fod yn is-ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, er y dywedwyd wrthym fod prosesau sicrhau ansawdd ar waith. Mae'n werth nodi hefyd ei bod yn ymddangos bod dibyniaeth gynyddol ar Lywodraeth Cymru i geisio cywiro gwallau 'cyn eu gwneud', gan gynnwys gwallau y gellid eu hystyried yn fwy na mân eu natur. Rydym wedi codi pryderon gyda'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch nifer yr ymatebion gan Lywodraeth Cymru i'n hadroddiadau ar is-ddeddfwriaeth, gan nodi y caiff gwallau eu cywiro drwy slipiau cywiro neu cyn i'r offeryn gael ei gyhoeddi ar legislation.gov.uk.

**83.** Rydym yn nodi bod y Cwnsler Cyffredinol wedi dweud y bydd yn wir ar bob adeg mai'r dull a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yw cywiro gwallau mewn offerynnau statudol drafft a'u hailosod gerbron y Senedd. At hynny, rydym yn cydnabod sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar inni am yr achlysuron hynny pan fyddwn wedi cytuno i gyflymu ein hystyriaeth o'r offeryn statudol diwygiedig.

**84.** Mae wedi dod yn destun pryder arbennig i ni o ran defnydd o Filiau fframwaith gan Lywodraeth Cymru. Yn ôl eu natur, maent yn cymryd pŵer oddi ar y Senedd ac yn ei roi i'r Llywodraeth: Mae manylion polisi a ddylai fod ar wyneb y Bil yn cael eu gadael i'w cynnwys mewn rheoliadau a wneir – neu sydd i'w gwneud – gan Weinidogion Cymru, nad ydynt yn ddarostyngedig i lefel y craffu ac ymgysylltu a fyddai'n digwydd o dan broses ddeddfwriaethol y Senedd ar gyfer Bil, yn anad dim oherwydd nad oes modd diwygio rheoliadau. Gall hefyd olygu bod rheoliadau o'r fath yn fwy manwl a chymhleth.

**85.** Arweiniodd ein hadroddiadau ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) a Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) at 76 o argymhellion i Lywodraeth Cymru a oedd yn adlewyrchu ein pryderon ynghylch ansawdd y ddeddfwriaeth a'r dull sy'n cael ei fabwysiadu.

**86.** Yn ein hadroddiadau, rydym wedi amlygu'n fanwl pam nad yw defnyddio Biliau fframwaith yn arfer deddfwriaethol da ac, wrth wneud hynny, wedi tynnu ar adroddiadau a baratowyd gan ein pwyllgorau cyfatebol yn Nhŷ'r Arglwyddi, sef y Pwyllgor Craffu Is-ddeddfwriaeth, y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol a Phwyllgor y Cyfansoddiad.

**87.** Mynegodd paragraffau 48 i 59 o'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021/22 ein pryder ynghylch i ba raddau y mae Biliau'r DU yn cael eu defnyddio i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, yn enwedig pan fo hynny gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, a lle'r ydym o'r farn y dylai'r Senedd fod yn deddfu.

**88.** Mynegwyd pryder gennym ynghylch ymddangosiad diffyg democrataidd, ac y gallai'r dull sy'n cael ei fabwysiadu danseilio'r Senedd fel deddfwrfa yn ogystal ag egwyddorion sylfaenol datganoli. Nid yw ein profiad y flwyddyn ddiwethaf wedi newid y sefyllfa honno.

**89.** At hynny, gwnaethom dynnu sylw at broblem gyda'r broses cydsyniad deddfwriaethol, gan nodi nad oes rôl i'r Senedd ddylanwadu ar benderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylai fynd ar drywydd darpariaethau ar gyfer Cymru mewn un o Filiau'r DU yn y lle cyntaf. Mae hwn yn fater sydd wedi dod i'r amlwg yn ail flwyddyn y Chweched Senedd.

**90.** Fel y mae ein sylwebaeth yn ei amlygu, mae Gweinidogion wedi siarad yn aml am ddefnyddio Biliau'r DU gan mai hynny sydd orau i fuddiannau Cymru. Fodd bynnag, mae'n destun pryder i ni bod manylion yr hyn sydd i'w gynnwys yn y gyfraith, a'r hyn a ystyrir sydd orau i Gymru, yn benderfyniadau y mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai hi yn unig sydd i'w gwneud, a bod yn rhaid i'r Senedd gymryd y mater hwn ar ymddiriedaeth, ac eithrio am benderfyniad "ei gymryd neu ei adael" ar ddiwedd y broses cydsyniad deddfwriaethol. Nid ydym o'r farn bod natur y dull sy'n cael ei fabwysiadu yn gyson â'r egwyddor sylfaenol mai'r Senedd sy'n cael ei hethol, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, ac yn unol â hynny bod y

weithrediaeth yn atebol i'r ddeddfwrfa. Mae'r trafodaethau sy'n cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn eithrio lefel briodol o graffu seneddol, ac mae hynny'n peri cryn bryder o ystyried ei fod yn cael gwared ar elfennau o atebolrwydd democrataidd.

**91.** At hynny, mae yna beryglon o ran defnyddio Biliau'r DU. Roedd Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), a fyddai wedi cyflwyno mesurau diogelu anifeiliaid amrywiol, gan gynnwys gwahardd cadw primatiaid fel anifeiliaid anwes. Cefnogodd Llywodraeth Cymru y Bil ar sail "amseru a chydlynu", gan nodi hefyd bod lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Gwnaethom adrodd ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ym mis Hydref 2021 a mis Ebrill 2022, gan fynegi pryder ynghylch y defnydd o un o Filiau'r DU. Tynnwyd y Bil yn ôl wedi hynny gan Lywodraeth y DU ar 8 Mehefin 2023, union ddwy flynedd ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin, a chyfnod o amser pan allai Llywodraeth Cymru fod wedi deddfu yn y Senedd o ystyried bod lles anifeiliaid yn faes polisi blaenoriaeth.

**92.** Perygl arall, fel yr amlygwn gyda'n henghraifft ar ddiwygio'r gyfraith caffael sy'n gymwys yng Nghymru, yw y gall dull gweithredu Llywodraeth Cymru fod yn niweidiol i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, gan ei gwneud yn llawer mwy cymhleth i'w llywio.

**93.** Yn ein barn ni, nid yw penderfyniad i gydsynio i Fil y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn maes datganoledig o reidrwydd yn gyfystyr â chymeradwyo'r broses gydsynio. Yn hytrach, gall fod yn gydnabyddiaeth efallai mai dyma'r unig opsiwn i ddeddfu sydd ar gael bryd hynny, waeth pa mor gyfyngedig ac annigonol yw'r opsiwn hwnnw, tra hefyd o'r farn, ar yr un pryd, y dylid bod wedi dod o hyd i gapasiti i gyflwyno Bil Cymreig priodol.

**94.** Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 10 Hydref 2022, ni wnaeth y Cwnsler Cyffredinol anghytuno â'n barn, sef nad oes ffordd well o ddatblygu deddfwriaeth yng Nghymru ar gyfer meysydd sydd, yn arbennig, o fewn cymwyseddau datganoledig, na'u rhedeg drwy'r Senedd. Fodd bynnag ychwanegodd:

> "*… but that is not the nature of the legislative constitutional arrangement we have, because we don't have a proper federalised structure, which is something I would advocate that we ought to have.*"

**95.** Aeth ymlaen hefyd i gydnabod fod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn ffurf lai ar waith craffu, ond mae'n rhan o'r strwythur cyfansoddiadol sydd gennym ar hyn o bryd.

**96.** At hynny, rydym wedi nodi sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch dargyfeirio rhan enfawr o'n gallu i ddeddfu i'r hyn a bennir gan Lywodraeth y DU o ran beth yw eu

blaenoriaethau, a beth yw eu rhaglen ddeddfwriaethol. Serch hynny, mae'n dal yn wir bod defnyddio Biliau'r DU yn golygu bod Llywodraeth y DU yn pennu pa gyfraith a wneir ar gyfer Cymru mewn rhai meysydd datganoledig yn unol â rhai o'i blaenoriaethau, ond heb unrhyw waith craffu ystyrlon gan y Senedd.

**97.** Fel yr ydym wedi nodi droeon, nid yw penderfyniad deuaidd – ie neu na – i gynnwys darpariaethau datganoledig mewn Bil y DU yn cymryd lle craffu fesul llinell, y gallu i gyflwyno gwelliannau, clywed tystiolaeth ac i geisio gwelliannau i Filiau a gyflwynwyd i'r Senedd.

**98.** Yn ein hadroddiad ar gyfer 2021/22, gwnaethom ddweud nad oeddem wedi cael ein perswadio gan egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio Biliau'r DU, a'n bod yn ystyried eu bod yn ddiffygiol. Yng ngoleuni ein profiad yn 2022/23, a amlygwn uchod, nid yw ein barn wedi newid.

**99.** Mae'n amlwg i ni fod angen diwygio Confensiwn Sewel, fel i'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Pumed Senedd ei eiriol. Rydym yn rhannu barn y Cwnsler Cyffredinol, pan ddywedodd, yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, ym mis Mehefin 2023:

> *"Pan nad yw'r Senedd yn rhoi ei chydsyniad i Fil gan Lywodraeth y DU, mae angen i Lywodraeth y DU ailddechrau dangos parch tuag at ddatganoli a gwrthdroi sefyllfa lle'r duedd erbyn hyn yw mynd ati i dorri Confensiwn Sewel."*

**100.** Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod diffyg strwythur ffederal yn gyfiawnhad digonol dros osgoi craffu gan y Senedd. Nid ydym ychwaith o'r farn y dylid derbyn y broses cydsyniad deddfwriaethol fel modd o wneud darpariaeth ddatganoledig sylweddol mewn un o Filiau'r DU, yn enwedig pan wneir hynny gyda chydweithrediad Llywodraeth Cymru.

**101.** Am y rheswm hwnnw, rydym o'r farn bod yn rhaid i ddiwygio Confensiwn Sewel gynnwys mwy o lais i'r Senedd drwy gydol y broses gydsynio. Ni all fod yn iawn bod trafodaethau rhwng llywodraethau yn elfennau allweddol o broses o ddeddfu ar gyfer Cymru mewn maes datganoledig, gan gyfyngu ar yr un pryd ar allu'r Senedd i ddylanwadu ar broses ddeddfwriaethol y byddai'n disgwyl iddi fod yn ganolog iddi.

**102.** Rydym yn ddiolchgar i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Ysgrifennydd Parhaol am roi tystiolaeth mewn perthynas â materion capasiti fel y maent yn berthnasol i ddeddfu.

**103.** Rydym wedi clywed am y pwysau sydd ar Lywodraeth Cymru, a gallwn gydymdeimlo â'r sefyllfa y mae ynddi, er nad ydym wedi'n hargyhoeddi bod hyn yn cyfiawnhau'n llawn y dull y mae'n ei fabwysiadu tuag at ddeddfu.

**104.** Yn gyffredinol, mae’r darlun sy’n dod i’r amlwg yn un o’r cydbwysedd pŵer sy’n cael ei symud o’r Senedd (fel y ddeddfwrfa) i Lywodraeth Cymru, fel y weithrediaeth, drwy ddefnyddio Biliau fframwaith, pwerau gwneud rheoliadau eang a pharhau i ddefnyddio Biliau’r DU i wneud darpariaeth sylweddol mewn meysydd datganoledig. At hynny, rydym wedi clywed dadl o blaid bod y weithdrefn sydd ynghlwm wrth bwerau gwneud rheoliadau yn seiliedig ar lefel y diddordeb canfyddedig gan Aelodau’r Senedd. Rydym yn pryderu, o ystyried, materion hyn gyda'i gilydd, y gallai ymddangos bod dull Llywodraeth Cymru yn symud yn groes i’r graen o atebolrwydd seneddol.

**105.** Mae’r materion hyn, felly, yn parhau i beri pryder i ni, a byddwn yn parhau i’w monitro yn ystod trydedd flwyddyn y Chweched Senedd.

## Llwyddiannau a datblygiadau cadarnhaol

**106.** Mewn ymateb i’n hadroddiadau, nodwn fod Llywodraeth Cymru bellach wedi dechrau ysgrifennu atom i gadarnhau pa newidiadau sydd wedi’u gwneud i reoliadau o dan amgylchiadau lle bu’n rhaid gwneud newidiadau ar ôl i’r Senedd eu cymeradwyo, ond cyn gwneud (er enghraifft gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd sy’n ymwneud â Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023). Croesawn y dull hwn. Er ein bod o’r farn y dylai barhau mewn amgylchiadau o'r fath i sicrhau tryloywder, ni ddylid ei ystyried yn arfer da. Rhaid i Lywodraeth Cymru anelu ar bob adeg at sicrhau nad oes angen diwygio is-ddeddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd a chyn iddi gael ei gwneud, wedyn, gan Weinidogion Cymru.

**107.** Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol ynglŷn â diffyg memoranda esboniadol am y Gymraeg i gyd-fynd ag is-ddeddfwriaeth Gymreig o dan rai amgylchiadau. Ym mis Ionawr 2023, gwnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol ysgrifennu gan ddatgan “y bydd Llywodraeth Cymru yn llunio memoranda esboniadol i is-ddeddfwriaeth Cymru yn ddwyieithog wrth inni symud ymlaen.” Croesawn yr ymateb cadarnhaol i’n llythyr.

**108.** Nid ydym wedi cael llawer o lwyddiant o ran ein hargymhellion i wella deddfwriaeth fframwaith. Er na dderbyniwyd y rhan fwyaf o’n hargymhellion i ddiwygio’r Bil Amaethyddiaeth, gwnaethom awgrymu y dylid cymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol at reoliadau a fyddai’n caniatáu diwygio’r diffiniad o amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol (pe bai’r Gweinidog yn penderfynu cadw’r ddarpariaeth berthnasol). Rydym yn croesawu’r gwelliant ac yn credu ei fod yn gwella’r hyn sydd bellach yn *Neddf Amaethyddiaeth 2023*.

**109.** Yng ngoleuni ein pryderon ynghylch arfer parhaus Llywodraeth Cymru o gyflwyno Biliau fframwaith, rydym wedi comisiynu ymchwil i archwilio'r defnydd o'r math hwn o ddeddfwriaeth yng ngwahanol seneddau'r DU a thu hwnt. Bydd y prosiect ymchwil hwn yn edrych ar ba mor eang y defnyddir Biliau fframwaith yn y Senedd ac mewn seneddau eraill, yr effaith a gânt ar gyfer craffu seneddol, ac yn nodi arfer da y gellir ei ddefnyddio yn ein gwaith yn y dyfodol.

## Edrych tua'r dyfodol

**110.** Mae craffu ar is-ddeddfwriaeth ac agweddau ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn greiddiol i'n gwaith ac yn ein galluogi i ddylanwadu ac awgrymu gwelliannau i ansawdd y ddeddfwriaeth Gymreig sy'n cael ei chynhyrchu. At hynny, rydym yn craffu ar nifer sylweddol o femoranda cydsyniad deddfwriaethol ond mae ein gallu i ddylanwadu ar Filiau cyfatebol y DU yn gyfyngedig. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn ac yn cymryd y camau penodol a ganlyn:

- monitro nifer y gwallau mewn is-ddeddfwriaeth a osodwyd gerbron y Senedd i weld a ellir nodi unrhyw batrymau, ac yn parhau i godi materion sylweddol gyda'r Gweinidog perthnasol a'r Cwnsler Cyffredinol;
- parhau i fonitro defnydd o Fframwaith Biliau ac, yn amodol ar amseriadau, cyhoeddi canlyniad yr ymchwil academaidd rydym yn cyfeirio ato uchod;
- monitro i ba raddau y mae pŵer yn cael ei drosglwyddo o'r ddeddfwrfa a etholwyd yn ddemocrataidd i'r weithrediaeth o ganlyniad i ddull Llywodraeth Cymru o ddeddfu;
- parhau i fonitro gallu Llywodraeth Cymru i ddeddfu, mater a fydd yn dod yn bwysicach o ystyried sylwadau am y dyhead i ddatganoli cyfiawnder a'r cynigion ar gyfer Senedd o 96 Aelod o 2026 ymlaen;
- monitro'r goblygiadau i Gymru a'r Senedd o *Ddeddf Dirymu a Diwygio Cyfraith yr UE a Ddargedwir) 2023*;
- monitro'r defnydd o gytundebau rhynglywodraethol a sicrhau bod gwybodaeth amdanynt ar gael i'r cyhoedd;
- cynnal gwaith craffu ar Filiau Cydgrynhoi pellach, gan gynnwys Bil Cydgrynhoi cynllunio; a hefyd
- parhau i fonitro hygyrchedd a chymhlethdod cyfraith Cymru.

**111.** Yn ein hadroddiad blynyddol blaenorol, gwnaethom ddweud y byddem yn datblygu ein hegwyddorion einhunain (neu debyg), y byddwn yn eu defnyddio i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif pan fydd yn ceisio defnyddio un o Filiau'r DU i ddeddfu mewn maes datganoledig. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r rhain ar wahân maes o law.

# 3. Materion cyfansoddiadol a materion allanol

## Cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol

### Hysbysiad bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel weinidogol

**112.** Eleni, rydym wedi cael hysbysiad bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan mewn 30 o gyfarfodydd rhynglywodraethol ar lefel weinidogol. Cawsom hysbysiad ymlaen llaw ynghylch 23 o'r cyfarfodydd hyn, a'r eitemau a fyddai'n cael eu trafod.

### Hysbysiad bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru

**113.** At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod i ni am ei phenderfyniadau i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud 16 eitem o ddeddfwriaeth ddirprwyedig mewn meysydd datganoledig.

**114.** O'r 16 o eitemau hyn o ddeddfwriaeth, cawsom hysbysiad ymlaen llaw o fwriad Llywodraeth Cymru i gydsynio i 9 ohonynt. O ran 2 eitem, dim ond diwrnod o rybudd a gawsom am eu gosod yn Senedd y DU.

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

**115.** Mae ein hadroddiadau monitro yn amlygu gweithgarwch penodol sydd wedi digwydd mewn perthynas â chysylltiadau rhynglywodraethol.

**116.** Mae'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol bellach yn ei le ers dros 18 mis. Sefydlodd system tair haen o Adolygiad Rhynglywodraethol yn y DU, gyda grwpiau rhyngweinidogol sy'n canolbwyntio ar bolisi (neu *IMGs*) ar y gwaelod, Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol i oruchwylio'r *IMGs* a thrafod materion trawsbynciol ar lefel uwch weinidogion yn y canol, a Chyngor Prif Weinidog y DU a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig ar y brig.

**117.** Ym mis Hydref 2022, siaradodd y Prif Weinidog am chwalfa mewn cysylltiadau rhynglywodraethol â Llywodraeth y DU ar y pryd. Wrth groesawu cyfarfod cyntaf Prif Weinidog y DU a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig ym mis Tachwedd 2022, gwnaeth y Prif Weinidog ddweud ar 9 Ionawr 2023 ei fod eisiau ymgysylltiad rheolaidd, rhagweladwy gan Lywodraeth y DU, a bod angen rhoi'r cytundeb rhynglywodraethol newydd ar waith yn briodol.

**118.** Mae cyfarfodydd yn parhau ar bob haen o'r adolygiad rhynglywodraethol, er na fu ail gyfarfod o Gyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig ers y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2022.

**119.** At hynny, rydym wedi clywed am rwystredigaethau ynghylch diffyg presenoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol mewn cyfarfodydd Grwpiau Rhyngweinidogol.

**120.** Mewn perthynas â defnyddio Biliau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, cafwyd hefyd sawl enghraifft lle dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cael golwg hwyr ar Fil y DU (sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig) cyn ei gyhoeddi, er enghraifft mewn perthynas â Bil Protocol Gogledd Iwerddon, y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a'r Bil Ynni. Yn achos yr olaf o'r Biliau hynny, yn ystod y sesiwn dystiolaeth ac mewn gohebiaeth ddilynol, roedd gwahaniaeth barn clir rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar faterion ymgysylltu.

**121.** Mae'r adolygiad yn cynnwys proses datrys anghydfod, y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i ddisgrifio fel cam sylweddol iawn ymlaen. O dan y mecanwaith, gellir trosglwyddo anghydfodau am i fyny trwy'r haenau, gyda chyfranogiad ac arweiniad yr Ysgrifenyddiaeth ar gyfer Cysylltiadau Rhynglywodraethol. Fodd bynnag, ni chafodd yr ysgrifenyddiaeth cysylltiadau rhynglywodraethol ei sefydlu erbyn toriad yr haf 2023, fel yr awgrymwyd gan Weinidog y DU dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS.

**122.** Nid oes cofnod o'r broses datrys anghydfod yn cael ei ddefnyddio. Yn ei dystiolaeth i ni ar 5 Rhagfyr 2023, rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol yr enghraifft o anghydfod cymhwysedd dros Fil y DU fel rhywbeth a allai, o bosibl, fynd drwy'r broses anghydfodau newydd, ond cadarnhaodd nad yw wedi'i ddefnyddio eto.

**123.** Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol ddweud wrthym ym mis Mawrth 2022 mai dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y byddai disgwyl cael anghydfodau, a bod llawer o'r fframwaith yn ymwneud ag osgoi anghydfodau, a dod i gytundebau gwirioneddol.

**124.** Wrth adrodd, wedyn, ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol, rydym wedi argymell o bryd i'w gilydd bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r camau y mae wedi'u cymryd i ddatrys gwahaniaethau barn, lle maent yn bodoli, gyda Llywodraeth y DU, gan ddefnyddio'r prosesau datrys anghydfodau rhynglywodraethol newydd. Fodd bynnag, yn ôl ei ymatebion (er enghraifft ar y Bil Banc Seilwaith y DU a'r Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol)), mae Llywodraeth Cymru wedi ymddangos yn amharod i ymgysylltu â'r broses neu ei defnyddio.

**125.** Ar 10 Gorffennaf 2023, fe wnaethom holi'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio'r broses datrys anghydfod Cysylltiadau

Rhynglywodraethol ar gyfer anghydfodau ynghylch Biliau Llywodraeth y DU a chydsyniad y Senedd. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym:

> *"I don't think it is appropriate for every single dispute that happens on a piece of legislation, individually, to go through [the dispute resolution procedure], because the likelihood is that the fast momentum of legislation, the continual changing nature of that, is something that makes it very, very difficult to happen."*

**126.** Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol ddweud ei bod yn fwy tebygol mai mewn perthynas â Sewel yn gyffredinol, yn hytrach nag ar Filiau unigol, y byddai'r cwmpas ar gyfer mynd ag anghydfod drwy weithdrefnau'r Cysylltiadau Rhynglywodraethol. Gwnaethom geisio eglurhad pellach ar y pwynt hwn ac mewn ymateb, dywedodd wrthym:

> *"Mae ffocws cychwynnol yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ar osgoi anghydfodau. Rydym yn gweithredu yn yr ysbryd hwnnw. Pan fo gennym bryderon am ddarn penodol o ddeddfwriaeth y DU, rydym yn ceisio gweithio gyda Llywodraeth y DU yn y lle cyntaf i sicrhau bod ein safbwyntiau'n cael eu deall, a'r nod yw ei chael i gymryd camau priodol i ddatrys y mater.*
>
> *Nid yw'n wir na ellir defnyddio'r prosesau anghydfod yn yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol mewn perthynas â Biliau unigol y DU; fodd bynnag, byddai'r amserlennu cysylltiedig yn debygol o fod yn gymhleth. Weithiau gall fod yn hwyr iawn yn hynt Bil cyn iddi ddod yn amlwg na ellir dod i gytundeb ar lefel rynglywodraethol, ac er y gellir cynnal y prosesau anghydfod yn gyflym, nid ydynt yn diystyru gallu Senedd y DU i gynnal ac amserlennu busnes deddfwriaethol."*

**127.** At hynny, rydym wedi codi ein pryderon ein hunain yn uniongyrchol â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol gwael, ac wedi ceisio eu persbectif ar yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn ddefnydd gormodol o Filiau'r DU i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf ar gyfer 2021/22, gwnaethom gyfnewid gohebiaeth gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, y Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS.

**128.** Yn dilyn ein gohebiaeth gyda'r Gwir Anrhydeddus Greg Clark AS, gwnaethom ysgrifennu at ei olynydd, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS ym mis Tachwedd 2022, yn gofyn a oedd y canllawiau a ddarparwyd ar ymgysylltu ar Filiau'r DU yn rhai ffurfiol eu natur (yn debyg i

nodiadau canllaw datganoli er enghraifft). Yn ei ateb, dywedodd wrthym fod canllawiau a chefnogaeth yn cael eu haddasu, wedyn, i amgylchiadau penodol pob bil, sy'n awgrymu nad oes proses ffurfiol ar waith ar draws Whitehall.

**129.** O ganlyniad i'n gohebiaeth gyda'r Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, anfonwyd gwahoddiad ato i roi tystiolaeth i ni ar bwnc cysylltiadau rhynglywodraethol. Fodd bynnag, ni chafwyd ymateb ffurfiol, hyd yn hyn.

**130.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Hadroddiad Blynyddol 2022 o ran ei hadolygiad o gysylltiadau rhyngwladol, ym mis Mawrth 2023.

**131.** Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad, Darparu gwybodaeth rynglywodraethol i'r Senedd: adroddiad 2021 i 2023. Nod yr adroddiad, y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w gynhyrchu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, yw darparu asesiad cytbwys o natur gwaith rhynglywodraethol ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'n crynhoi'r gwaith ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac mae'n ategu diweddariadau Llywodraeth Cymru a ddarperir i'r Senedd drwy fusnes y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau.

## Fframweithiau cyffredin

**132.** Rydym wedi parhau i oruchwylio gwaith craffu pwyllgorau eraill y Senedd ar fframweithiau cyffredin unigol, gan eu bod wedi cael eu cyhoeddi at ddibenion gwaith craffu. Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom ystyried y materion trawsbynciol sydd wedi codi yn sgil y gwaith craffu hwn hyd yn hyn, a chytunwyd i gyhoeddi adroddiad ar y materion hynny.

**133.** Ym mis Mai 2023, gwnaethom osod ein adroddiad ar fframweithiau cyffredin, a gwneud 21 o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar faterion megis:

- eu goblygiadau ar gyfer llunio polisïau datganoledig;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â'r fframweithiau;
- eu hansawdd; a hefyd
- y mecanweithiau datrys anghydfod sydd ynddynt.

**134.** Gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol ymateb i'n hadroddiad ym mis Mehefin 2023. O fewn yr ymateb, dywedodd wrthym nad oedd yn gallu ymateb yn ffurfiol i argymhellion y pwyllgor nes bod gwaith craffu wedi'i gwblhau gan bob un o bedair deddfwrfa'r DU.

**135.** Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ein adroddiad ar 12 Gorffennaf 2023.

## Gweithredu Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

**136.** Cafodd Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Deddf Marchnad Fewnol y DU) ei chyflwyno er mwyn rheoleiddio marchnad fewnol y DU ar ôl iddi adael yr Undeb Ewropeaidd.

**137.** Ym mis Awst 2022, gwnaeth y Goruchaf Lys wrthod cais Llywodraeth Cymru am ganiatâd i apelio yn erbyn Gorchymyn y Llys Apêl, sef bod ei chais am Adolygiad Barnwrol o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn gynamserol ac ni chododd bwynt cyfreithiol y gellir ei ddadlau. Roedd yr achos yn berthnasol i ddadl Llywodraeth Cymru, a nodwyd ym mis Gorffennaf 2022 gan y Prif Weinidog, am gyflymu'r gwaith craffu ar Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) (gweler y sylwebaeth ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn, ac isod).

**138.** Gosododd Llywodraeth Cymru y Bil ar 20 Medi 2022. Roedd yn cynnwys cynigion i wahardd nifer o eitemau plastig untro. Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau hyn wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Gwaharddiadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Plastigau Untro) 2022, y cydsyniodd Llywodraeth Cymru iddynt ym mis Awst 2022. Byddent, felly, yn cael eu heithrio o'r Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad yn Neddf Marchnad Fewnol y DU. Fodd bynnag, nid yw bagiau siopa untro, caeadau ar gyfer cwpanau, cynwysyddion cludfwyd a'r holl gynhyrchion plastig ocsid untro wedi'u cynnwys yn yr eithriadau presennol ac felly byddent yn cael eu dal gan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU. Nid oedd Memorandwm Esboniadol y Bil yn sôn o gwbl am Ddeddf Marchnad Fewnol y DU na'i pherthynas â chynigion y Bil.

**139.** Fe wnaethom osod ein adroddiad ar y Bil ar 11 Hydref 2022. Roedd yn nodi fel a ganlyn:

> *"Rydym yn derbyn na all UKIMA gyfyngu ar gymhwysedd y Senedd i ddeddfu ar faterion sydd wedi'u datganoli ac sydd o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol. Fodd bynnag, ein pryder yw unwaith y bydd cyfraith wedi'i gwneud gan y Senedd, y gall UKIMA ddylanwadu ar ba mor effeithiol yw'r gyfraith honno oherwydd yr egwyddorion mynediad i'r farchnad y mae'n eu cyflwyno ar draws y DU."*

**140.** Yn ei hymateb dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"Ein safbwynt ni yw bod y Bil o fewn cymhwysedd y Senedd, ei fod yn gwbl orfodadwy, ac nad yw'n cael ei effeithio gan UKIMA. Rydym o'r farn honno oherwydd bod y Bil hwn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig. Ni all UKIMA ac nid yw, yn ein barn ni, yn torri ar draws*

*cymhwysedd y Senedd i ddeddfu am y materion hynny. Ni all olygu diddymu Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (GoWA), sy'n statud gyfansoddiadol. Ni all gadw materion yn ôl drwy'r drws cefn."*

**141.** Dilynwyd hyn gan gyfnewid gohebiaeth rhyngom ni a'r Gweinidog Newid Hinsawdd.

**142.** Cafodd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ei gyflwyno i'r Senedd ar 26 Medi 2022. Byddai adran 32 (Safonau marchnata) a 33 (Dosbarthiad carcasau etc.) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n newid y safonau sy'n ofynnol ar gyfer nwyddau, megis pecynnu a labelu. Gall safonau gwahanol ar gyfer nwyddau rhwng gwahanol rannau o'r DU gynnwys yr egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Neddf Marchnad Fewnol y DU. Codwyd y materion posibl hyn gennym yn y sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ac mewn gohebiaeth ddilynol. Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog:

*"Fel sy'n wir o ran Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), rydym yn glir bod Senedd Cymru'n cael deddfu heb orfod ystyried gofynion UKIMA."*

**143.** Cafodd y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin ar 25 Mai 2022 a chafodd Gydsyniad Brenhinol i ddod yn Ddeddf Technoleg Enetig (Bridio Manwl) 2023 (Deddf 2023) ar 23 Mawrth 2023. Mae Deddf 2023 yn eithrio rhai organebau a ddatblygwyd gan ddefnyddio'r hyn y mae'r Bil yn ei ddisgrifio fel technegau bridio manwl o'r drefn reoleiddio bresennol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig (neu *GMO*) yn Lloegr, ac mae'n creu trefn newydd ar gyfer eu rheoli.

**144.** Er nad yw Deddf 2023 yn diwygio'r gyfraith yng Nghymru o ran cynnyrch GMO, mae'r egwyddorion a geir yn Neddf Marchnad Fewnol y DU o ran mynediad i'r farchnad yn golygu y bydd modd i unrhyw blanhigion, anifeiliaid, bwyd neu borthiant a gynhyrchir yn Lloegr o dan y drefn newydd gael ei werthu yng Nghymru heb orfod bodloni'r gofynion GMO sy'n parhau mewn grym yng Nghymru. Gwnaeth y Nodiadau Esboniadol i'r Bil a'r Asesiad Effaith gydnabod yr effaith hon yn sgil Deddf Marchnad Fewnol y DU.

**145.** Ar 8 Rhagfyr 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (ond gweler uchod) yn nodi fel a ganlyn:

*"Mae effaith y gofynion yn yr UKIMA yn golygu y bydd y darpariaethau yn y Bil, i bob pwrpas, yn caniatáu gwerthu a marchnata organebau wedi'u bridio'n fanwl yng Nghymru – rhywbeth nad yw deddfwriaeth Cymru yn ei ganiatáu ar hyn o bryd."*

**146.** Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd yn dweud y byddai "cyfraith Cymru yn amherthnasol" i blanhigion, anifeiliaid, bwyd neu fwyd anifeiliaid a awdurdodwyd o dan gynllun newydd yn Lloegr oherwydd effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU.

**147.** Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant gyhoeddi cynlluniau ym mis Mehefin 2023 i "gyfyngu ar werthu cynnyrch uchel mewn braster, siwgr a halen". Gan fod y cynigion yn ymwneud â rheoleiddio gwerthu nwyddau, mae'n bosibl y bydd Deddf Marchnad Fewnol y DU yn cyfyngu ar effeithiolrwydd cynlluniau Llywodraeth Cymru.

**148.** Ar 12 Mehefin 2023, clywsom dystiolaeth gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol. Cafwyd trafodaeth yn y sesiwn am ymgysylltiad Swyddfa'r Farchnad Fewnol â Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yn y broses ar gyfer penodi aelodau o Banel y Swyddfa honno, sy'n cynorthwyo'r Swyddfa honno i gyflawni ei swyddogaethau a nodir yn y Deddf Marchnad Fewnol y DU.

**149.** Cawsom wybod bod Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion" yn Llywodraeth Cymru, a bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn gyda phob un o bedair llywodraeth y DU.

**150.** O dan adran 34 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, gall Swyddfa'r Farchnad Fewnol gynghori ar yr effeithiau economaidd posibl y gallai cynnig eu cael ar farchnad fewnol y DU. Er bod y pŵer hwn yn agored i bob un o'r pedair llywodraeth yn y DU, hyd yn hyn, dim ond unwaith y mae wedi cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y DU o ran cynigion i wahardd gwerthu mawn yn Lloegr.

**151.** Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedodd yr OIM y byddai hefyd yn barod i ystyried cyngor ar effeithiau economaidd gwaharddiadau posibl i egwyddorion mynediad i'r farchnad.

## Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

### Llywodraethiant y DU a'r UE

**152.** Gan adeiladu ar ein gwaith y llynedd, a'n cyflwyniad i Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, lansiwyd ymholiad i lywodraethiant y DU a'r UE ym mis Mai 2023. Mae'r ymchwiliad yn ystyried sut mae pensaernïaeth sefydliadol a llywodraethiant cytundebau rhwng y DU a'r UE wedi esblygu'n ymarferol, rôl llywodraethau datganoledig, deddfwrfeydd a chymdeithas sifil oddi mewn iddynt a thryloywder ac atebolrwydd y cytundebau hynny.

**153.** Clywsom dystiolaeth gan academyddion, arbenigwyr a chymdeithas sifil ym mis Mehefin 2023 a chasglwyd tystiolaeth ysgrifenedig a mewnbwn gan randdeiliaid o'r DU a'r UE. At hynny,

gwnaethom ymweld â Brwsel rhwng 5 a 7 Medi 2023 a chynnal trafodaethau ag amrywiol gynrychiolwyr o'r DU a'r UE.

**154.** Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ym mis Tachwedd 2023.

**155.** Cyn yr ymchwiliad, cyflwynodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig ar sut mae Cymru'n cael ei chynrychioli o ran llywodraethiant cysylltiadau rhwng y DU a'r UE mewn perthynas ag ymholiad Pwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin ar gynrychiolaeth y DU o ran yr UE: beth sydd wedi newid a sut mae'n gweithio? At hynny, ymholiad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, yr ydym yn ei ystyried isod. Gwnaeth y naill adrodd ym mis Hydref 2023 ac adlewyrchwyd barn y Pwyllgor yn adroddiad y llall ym mis Ebrill 2023.

## Cynulliad Partneriaeth Seneddol

**156.** Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn darparu opsiwn i sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar gyfer cydweithredu seneddol rhwng Senedd Ewrop a Senedd y Deyrnas Unedig.

**157.** Yn ystod 2022/23 cyfarfu'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ddwy waith arall, ym mis Tachwedd 2022 a Gorffennaf 2023. Cynrychiolwyd y Senedd gan ein Cadeirydd Pwyllgor a gan Luke Fletcher AS ar ran Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**158.** Cyhoeddodd cynrychiolwyr y Senedd adroddiadau ar y trafodaethau a gynhaliwyd yn y ddau gyfarfod sydd hefyd yn gwneud argymhellion ar gyfer datblygu'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ei hun ymhellach, ac ar gyfer ymgysylltiad y Senedd yn ei waith. Rhannwyd yr adroddiadau hyn â Phrif Weinidog Cymru, Pwyllgorau perthnasol y Senedd a dirprwyon y Cynulliad Partneriaeth Seneddol eu hunain.

## Gwaith monitro

**159.** Fel y nodwyd yn gynharach, rydym yn cyhoeddi adroddiadau monitro yn rheolaidd, er mwyn hysbysu rhanddeiliaid am rai o'r materion yr ydym yn eu hystyried. Mae monitro materion sy'n ymwneud â chysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn nodwedd allweddol o'r adroddiadau hyn. Drwy ein gwaith monitro yn 2022-23, gwnaethom ystyried materion yn ymwneud â Phrotocol Gogledd Iwerddon a Fframwaith Windsor, Horizon Europe, Cyfraith yr UE a ddargedwir a chysoni ac ymwahanu rhwng y DU a'r UE yn fwy cyffredinol, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y DU a'r UE ar Wasanaethau Ariannol, presenoldeb Llywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a dyfarniad yr Uchel Lys ar hawliau dinasyddion yr UE o dan Gynllun Setliad yr UE.

**160.** At hynny, rydym wedi parhau i fonitro gwaith y Grŵp Rhyngweinidogol ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ac, yn fwy cyffredinol, ymgysylltiad rhynglywodraethol ar faterion rhwng y DU a'r UE.

## Deddfwriaeth

**161.** Rydym wedi ystyried ein rôl o ran monitro trefniadau llywodraethiant cysylltiadau'r DU a'r UE drwy ein gwaith craffu deddfwriaethol. Rydym wedi ystyried cydymffurfiaeth y DU â chyfraith ryngwladol, gan gynnwys cytundebau rhwng y DU a'r UE drwy ein gwaith craffu ar nifer o femoranda cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â Biliau y Deyrnas Unedig. Yn benodol, gwnaethom ystyried y canlynol:

- effaith y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon ar gydymffurfiaeth y DU â chyfraith ryngwladol, ac effaith y Bil ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Yn ein adroddiad, a osodwyd ym mis Tachwedd 2022, cymerodd mwyafrif o'r Pwyllgor y cam prin o argymell bod y Senedd yn atal cydsyniad ar y sail y gallai penderfyniad cydsynio gyfrannu at dorri cyfraith ryngwladol ac y byddai'n golygu y byddai'r Senedd yn gweithredu'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, a fyddai'n cyferbynnu ag ysbryd y setliad datganoli. Hwn oedd y tro cyntaf i achos posibl o dorri cyfraith ryngwladol gael ei roi fel sail ar gyfer argymell atal cydsyniad;

- y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ymfudo Anghyfreithlon ar gydymffurfiaeth y DU â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a darpariaethau hawliau dynol y Cytundeb Masnach c Chydweithredu. Roedd ein adroddiad ym mis Mehefin 2023 yn ailadrodd ein barn, a ddatblygwyd wrth graffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Protocol Gogledd Iwerddon, y gallai penderfyniad gan y Senedd i gydsynio i'r Bil gyfrannu at dorri cyfraith ryngwladol, ac y byddai'n golygu bod y Senedd yn gweithredu'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, a fyddai'n cyferbynnu ag ysbryd y setliad datganoli;

- y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), ac adroddwyd ym mis Gorffennaf 2023.

# Cytundebau rhyngwladol

## Y cefndir

**162.** Rydym yn gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol anfasnachol yn y Chweched Senedd ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Senedd ar faterion o'r fath.

**163.** Wrth drafod cytundebau rhyngwladol, rydym yn ystyried y canlynol:

- a yw cytundeb yn ymgysylltu â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oedd unrhyw oblygiadau polisi posibl i Gymru.

## Crynodeb o weithgarwch y Pwyllgor

**164.** Eleni, rydym wedi ystyried 13 o gytundebau rhyngwladol anfasnachol, gan gymryd camau pellach mewn perthynas â chwech, a nodi'r saith sy'n weddill er gwybodaeth yn unig.

**165.** Rydym yn cytuno â'r Prif Weinidog, wnaeth ddweud wrthym:

> *"… bod buddiannau cyfreithlon a hanfodol gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd yn amodau a phrosesau negodi unrhyw gytundebau rhyngwladol sy'n galw am weithredu mewn meysydd datganoledig."*

**166.** Mae ein hystyriaeth o faterion a godwyd yn ystod gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol yn parhau i esblygu. Rydym wedi ceisio gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar ystod o faterion. Rydym wedi nodi materion fel y rhai a ganlyn:

- sut mae'r broses o weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn rhyngweithio â Chonfensiwn Sewel;
- rôl ac effeithiolrwydd cysylltiadau rhynglywodraethol wrth weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol;
- i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â datblygu cytuniadau rhyngwladol;
- barn llywodraethau'r DU a Chymru ynghylch a yw cytuniadau unigol yn disgyn ar draws cymwyseddau datganoledig, ac ym mha fodd;
- defnyddio deddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth bresennol i gyflawni gofynion cytundebau, ac i barhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol; a

- rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n ymwneud â'r broses weithredu, megis Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus ac asiantaethau.

**167.** Rydym yn dwyn ein adroddiadau ar gytundebau rhyngwladol i sylw Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi, a phwyllgorau eraill y Senedd pan fo'r materion a godwyd yn ymwneud â materion o fewn eu cylchoedd gwaith.

### Craffu ar Gytuniadau Rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol eraill yn y 21ain ganrif

**168.** Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymholiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ar graffu ar Gytuniadau Rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol eraill yn yr 21ain ganrif. Daethom i nifer o gasgliadau, gan gynnwys y canlynol:

- rydym yn gresynu nad yw proses graffu cytuniadau'r DU yn darparu rôl ffurfiol i'r deddfwrfeydd datganoledig, gan gynnwys lle mae cytundebau rhyngwladol yn addasu neu'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig, neu lle mae goblygiadau polisi pwysig iddynt;
- gallai gwaith craffu seneddol y DU ond buddio pe bai gan y deddfwrfeydd datganoledig rôl ffurfiol, gyda'n barn yn cael ei chydnabod a'i chynnwys;
- nid yw bob amser yn bosibl i'r Senedd gynnal gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol o fewn y cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod. Fodd bynnag, mae ein proses yn dangos bod mewnbwn gan ddeddfwrfeydd datganoledig yn bosibl, ac yn gallu arwain at ganlyniadau pwysig;
- mae'r Senedd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at graffu ar gytundebau rhyngwladol y DU ers mis Ionawr 2019; a
- gwnaethom nodi a chroesawu cefnogaeth Aelodau a phwyllgorau Senedd y DU, ac arbenigwyr allanol, ar gyfer cyfranogiad datganoledig mewn craffu ar gytundebau rhyngwladol.

**169.** At hynny, cafwyd tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad gan ein Cadeirydd ar 22 Tachwedd 2022.

**170.** Rydym wedi llunio cytundebau i sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd pe baent yn dymuno cynnal rhagor o waith craffu, ac wedi gofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am y modd y mae'n gweithredu cytundebau.

**171.** Mewn perthynas â'r cytundeb rhwng y DU a'r Swistir ar gydnabod cymwysterau proffesiynol, gwnaethom geisio barn y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2023 ar y berthynas – os o gwbl – rhwng gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel. Roedd hyn yng ngoleuni'r ffaith bod y Senedd wedi gwrthod rhoi cydsyniad ar gyfer *Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022*, y gellir defnyddio ei phwerau i roi'r cytundeb ar waith. Gwnaeth y Prif Weinidog ymateb ym mis Awst 2023.

## Gweithio rhyngseneddol

**172.** Cyfarfu'r Fforwm Rhyngseneddol am yr eildro yn y Senedd ym mis Hydref 2022. Bu cynrychiolwyr o bwyllgorau o Dŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Senedd yr Alban a'r Senedd yn trafod Protocol Gogledd Iwerddon, cyfraith yr UE a ddargedwir a'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhyngseneddol. Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd ac ynddo, codwyd pryderon gan y rheini a oedd yn bresennol ynghylch cwmpas pwerau dirprwyedig yn neddfwriaeth y DU sy'n ymwneud â'r DU yn gadael yr UE.

**173.** Cynhaliwyd cyfarfod pellach ym mis Mawrth 2023 yn Nhŷ'r Cyffredin a gwnaeth y datganiad ar y cyd dynnu sylw at drafodaethau ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (gan gynnwys Confensiwn Sewel a chydsyniad deddfwriaethol), Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE a chysylltiadau rhynglywodraethol.

**174.** Rydym wedi ceisio ymgysylltu â phwyllgorau seneddol eraill drwy gyfrannu at eu gwaith ymchwilio. Yn ychwanegol at yr achosion a nodir uchod, rhoddodd ein Cadeirydd dystiolaeth ym mis Mawrth 2023 i ymchwiliad gan Bwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban ar sut mae datganoli yn newid ar ôl i'r DU adael yr UE, wnaeth adrodd ym mis Hydref 2023.

## Casgliadau

### Canfyddiadau a phryderon

**175.** Er ein bod ni, a phwyllgorau perthnasol eraill y Senedd, yn cael rhybudd amserol ar y cyfan gan Lywodraeth Cymru o gyfarfodydd rhyngweinidogol sydd ar ddod, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi fawr o rybudd i ni os o gwbl o'i phenderfyniadau i gydsynio i ddeddfwriaeth ddirprwyedig gael ei gwneud mewn meysydd datganoledig.

**176.** Rydym yn parhau i gymryd diddordeb cryf mewn cysylltiadau rhynglywodraethol. Fel y dengys swm yr ohebiaeth a gawn o ganlyniad i'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, cynhelir cyfarfodydd rhwng Gweinidogion gwahanol lywodraethau yn aml ac maent yn

cwmpasu ystod o feysydd polisi. Rydym yn croesawu'r ohebiaeth hon, er y gall ansawdd y wybodaeth a ddarperir amrywio.

**177.** Mae gweithgarwch rhynglywodraethol hefyd wedi dod yn bwysicach fyth wrth i nifer y Biliau yn y DU (a’r cymalau ynddynt) sy'n gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig gynyddu. Mae'n ymddangos nad yw hyn yn debygol o leihau hyd y gellir rhagweld. O ystyried bod trafodaethau a chyd-drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn effeithio ar swm cynyddol y gyfraith a wneir mewn meysydd datganoledig gan Senedd y DU, mae ein gwaith craffu ar y perthnasoedd hyn yn dod yn fwy hanfodol nag erioed, nid yn lleiaf oherwydd y pryderon rydym wedi eu mynegi yn ein hadroddiadau ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol (gweler, er enghraifft, ein hadroddiad ar y Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio).

**178.** Rydym wedi ceisio dod o hyd i wybodaeth am y defnydd o'r broses datrys anghydfodau sydd ar gael o dan yr Adolygiad a byddwn yn parhau i wneud hynny. Byddai'n ymddangos, yn seiliedig ar y dystiolaeth a nodwyd gennym uchod, fod peth ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch i ba raddau y gellir defnyddio'r broses datrys anghydfodau hon i ddatrys anghytundebau ar Filiau unigol y DU.

**179.** Os yw'r defnydd o Filiau'r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn parhau ar y lefelau a welir yn y Chweched Senedd, mae'r cwestiwn yn codi ynghylch cwmpas, dichonoldeb a dymunoldeb datblygu strwythurau rhyngseneddol i graffu ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud ar sail y DU o fewn meysydd datganoledig.

**180.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwelwyd datblygiadau sylweddol yn y berthynas rhwng y DU a’r UE, o anghytuno sylfaenol ynghylch Protocol Gogledd Iwerddon yn hydref 2022 i gytundeb Fframwaith Windsor yn 2023. Mae’r cytundeb ar Horizon, y memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar Safonau Ariannol a’r dystiolaeth yr ydym wedi’i chasglu fel rhan o’n hymchwiliad i lywodraethu’r DU a’r UE yn awgrymu ‘normaleiddio’ yn y berthynas rhwng y DU a’r UE.

**181.** Mae'r normaleiddio hwn yn rhoi cyfle da i adolygu sut mae llywodraethu cytundebau rhwng y DU a'r UE wedi gweithio'n ymarferol, beth yw rôl Cymru yn hyn o beth a’r meysydd ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol.

**182.** Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol eisoes wedi datblygu’n sylweddol ers ei gyfarfod cyntaf yn 2022. Mae gwaith y Senedd i ymgysylltu â'i gyrff a'i aelodau hefyd yn parhau i esblygu. Mae’r gwahoddiad i aelodau o'r deddfwrfeydd datganoledig gymryd rhan mewn sesiynau grŵp yn ystod cyfarfodydd y Cynulliad yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr. Mae'n galluogi'r deddfwrfeydd datganoledig i wneud cyfraniadau cadarnhaol ac ystyrlon i waith y

Cynulliad. Rydym yn parhau i alw am ystyriaeth bellach o ymgysylltiad y deddfwrfeydd datganoledig yn sesiynau llawn y Cynulliad a byddwn yn ystyried y mater o ymgysylltiad y cenhedloedd datganoledig, awdurdodau lleol a rhanbarthol yn fwy eang yn ein hymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE.

**183.** Credwn fod yn rhaid gwneud mwy i gynnwys cymdeithas sifil Cymru yng ngwaith y Senedd ar y Cynulliad a chyrff eraill ar ôl Brexit. Mae'r rhain yn themâu yr ydym yn debygol o'u trafod yn yr adroddiad ar lywodraethiant y DU a’r UE, sydd i’w osod gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2023.

**184.** Nid yw dal yn glir beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ar ddeddfwriaeth Cymru. Yn ôl Llywodraeth Cymru, nid yw'r egwyddorion mynediad i'r farchnad yn y Ddeddf yn effeithio ar ei deddfwriaeth arfaethedig yng Nghymru ar blastigau untro ac amaethyddiaeth. Fodd bynnag, ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl), barn Llywodraeth Cymru yw y bydd y Bil hwn sydd yn Fil i Loegr yn unig yn cael effaith ar effeithiolrwydd cyfraith Cymru.

**185.** Nid ydym wedi gallu canfod pam mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y Deddf Marchnad Fewnol y DU yn cael effaith ar ddeddfwriaeth bresennol Cymru ar addasu genetig ond nid ar gyfreithiau newydd Cymru sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a phlastigau untro.

**186.** Yr hyn sy’n arbennig o siomedig yw ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn gwrthod mynd i’r afael â’n pryder unwaith y bydd cyfraith wedi’i gwneud gan y Senedd, y gall y Deddf Marchnad Fewnol y DU ddylanwadu ar ba mor effeithiol yw’r gyfraith honno oherwydd yr egwyddorion mynediad i’r farchnad y mae’n eu cyflwyno ar draws y DU. Pryd bynnag y byddwn yn gofyn y cwestiwn hwn, rydym yn cael ymateb sy'n canolbwyntio ar y mater ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol i wneud deddfwriaeth. Nid oes anghytundeb ynghylch hynny; fel y nodwyd gennym, rydym yn derbyn na all Deddf Marchnad Fewnol y DU gyfyngu ar gymhwysedd y Senedd i ddeddfu ar faterion sydd wedi’u datganoli ac sydd o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol. Fodd bynnag, gall wneud y gyfraith honno'n llai effeithiol a dyna'r mater y mae Llywodraeth Cymru, am ba reswm bynnag, yn ymddangos yn amharod i fynd i'r afael ag ef. Yn ein barn ni, mae gan hyn oblygiadau o ran bod yn agored a thryloyw, ac yn y pen draw, gallai olygu nad yw busnesau a dinasyddion yn glir ynghylch y gyfraith sy'n berthnasol iddynt yng Nghymru.

## Llwyddiannau a datblygiadau cadarnhaol

**187.** Rydym wedi llwyddo i fonitro, ymateb a phrif ffrydio ystyriaethau llywodraethiant y DU a'r UE ar draws ein gwaith. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o’r

rhesymau pam mae craffu ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn parhau i fod yn allweddol i Gymru a'r Senedd.

**188.** Credwn fod ein hymgysylltiad â phwyllgorau seneddau wedi parhau i fod yn fuddiol, yn enwedig o ran tynnu sylw at waith y Senedd ond hefyd o ran cydweithio i helpu i nodi atebion i broblemau a rennir.

**189.** Ni oedd y ddeddfwrfa gyntaf i gael tystiolaeth gan Swyddfa'r Farchnad Fewnol ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ddechrau perthynas gadarnhaol a all ein helpu ni a phwyllgorau eraill i gael gwell dealltwriaeth o farchnad fewnol y DU a sut y bydd yn sail i ddulliau deddfwriaethol.

## Edrych tua'r dyfodol

**190.** Byddwn yn parhau i graffu ar faterion ehangach yn ymwneud a'r cyfansoddiad a materion allanol, gan gynnwys drwy wneud y canlynol:

- parhau i fonitro effaith yr Adolygiad Rhyg-lywodraethol a'r defnydd o'r broses o ddatrys anghydfodau rhwng llywodraethau;
- pan fo cyfleoedd priodol yn codi, edrych yn fanwl ar faterion ynghylch defnyddio Biliau y DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig gan gynnwys manteision neu anfanteision strwythurau priodol ar gyfer craffu, a hynny gyda phwyllgorau seneddau eraill;
- cyhoeddi ein hadroddiad ar Lywodraethiant y DU a'r UE ym mis Tachwedd 2023. Rydym yn gobeithio cynnal rhaglen waith i ymgysylltu â seneddau a sefydliadau eraill yn y DU, sefydliadau'r UE, cymdeithas sifil Cymru, aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol ac eraill ar sail ein canfyddiadau a'n hargymhellion;
- parhau i fonitro a phrif ffrydio materion yn ymwneud â llywodraethiant y DU a'r UE ar draws ein gwaith. Yn benodol, byddwn yn parhau i graffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor a Model Gweithredu Targed y Ffin, deddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir a deddfwriaeth sy'n ymwneud a'r cysondeb a'r gwahaniaeth rhwng Cymru, y DU a'r UE;
- parhau i fonitro'r berthynas rhwng setliad datganoli Cymru a rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys cytundebau rhyngwladol anfasnachol; ac
- mewn perthynas â Deddf Marchnad Fewnol y DU, monitro dull Llywodraeth Cymru o ymdrin ag effaith y Ddeddf honno a thynnu sylw at ganlyniad prosiect ymchwil ar

'*Wella dealltwriaeth rhanddeiliaid o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a'i heffaith ar gyfraith Cymru*', ac mae Ymchwil y Senedd yn arwain ar hyn.

# 4. Craffu ar faterion yn ymwneud a chyfiawnder

## Crynodeb

**191.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd tystiolaeth lafar mewn perthynas â materion cyfiawnder gan yr Arglwydd Bellamy, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, gan Syr Wyn Williams, Llywydd y Tribiwnlysoedd Cymreig sy'n ymadael, a chan y Cwnsler Cyffredinol. Isod rydym yn amlinellu'r prif themâu yr ydym wedi'u nodi yn sgil ein gwaith craffu.

## Arweinyddiaeth ac atebolrwydd o ran materion cyfiawnder

**192.** Fel rhan o waith craffu pwyllgorau'r Senedd ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, cawsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â gwariant yng nghyd-destun cyfiawnder. Cyhoeddwyd adroddiad gennym ar ein gwaith craffu, lle'r oeddem yn croesawu sicrwydd y Cwnsler Cyffredinol i ni nad oedd gostyngiadau bach mewn gwariant a gynlluniwyd ar drawsnewid cyfiawnder yn arwydd o unrhyw ostyngiad mewn blaenoriaeth i'r maes hwnnw. Nododd ein hadroddiad hefyd y bydd adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru sydd ar ddod ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn gyfle i werthuso canlyniadau ei wariant ar faterion cyfiawnder. Siaradodd ein Cadeirydd yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y gyllideb ddrafft ym mis Chwefror 2023.

**193.** Cyhoeddodd yr Arglwydd Bellamy yn ei dystiolaeth i ni ym mis Rhagfyr 2022 fod y grŵp rhyngweinidogol ar gyfiawnder y bu llawer o sôn amdano yn cael ei sefydlu. Mynegodd ei obaith y byddai cyfarfod cyntaf y grŵp yn cael ei gynnal cyn Pasg 2023 (cafodd ei gynnal ym mis Medi 2023 wedi hynny).

**194.** Dywedodd wrthym hefyd fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, wedi penderfynu blaenoriaethu gwaith i ymateb i 14 o argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Dywedodd wrthym hefyd ei fod yn ystyried manylion naw o'r argymhellion hyn, a'i fod yn bwrw ymlaen â gwaith ar y pump arall. Mewn gohebiaeth ddiweddarach â ni, darparodd yr Arglwydd Bellamy ragor o wybodaeth ar y gwaith hwn: ar wasanaethau digidol hygyrch; pwerau'r Llys Gweinyddol mewn perthynas ag ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; gwasanaethau'r Crwner drwy gyfrwng y Gymraeg; a dadgyfuno data ar gyfiawnder.

**195.** Dywedodd yr Arglwydd Bellamy wrthym hefyd nad oedd yn siŵr y byddai'n derbyn y syniad o'r 'ymyl ysgythrog' sy'n bodoli rhwng sefydliadau a gwasanaethau datganoledig a heb

eu datganoli yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, gan fod yna broblem rhyngwyneb cynhenid gyda chyfiawnder, a hynny gan fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gorfod gweithio'n agos yn rheolaidd ag adrannau eraill Llywodraeth y DU.

**196.** Gofynnwyd am farn ein rhanddeiliaid ar y sylwadau hyn. Dywedodd yr Athro Emyr Lewis o Brifysgol Aberystwyth wrthym nad oedd wedi’i argyhoeddi gan ymateb yr Arglwydd Bellamy i’r broblem o ran yr ‘ymyl ysgythrog’:

> *“Nid oes modd cymharu anawsterau gweithio ar draws (1) ar y naill law y ffin rhwng adrannau gweithredol Llywodraeth ganolog a rhai Llywodraeth ddatganoledig, ac (2) ar y llall y ffin rhwng gwahanol adrannau gweithredol Llywodraeth ganolog yn unig … mae adrannau Llywodraeth ganolog oll yn atebol i’r un awdurdod ac o dan ei reolaeth weithredol yn y pen draw … mae adrannau datganoledig yn atebol i Brif Weinidog Cymru a’r Cabinet yng Nghymru …Y diffyg cymesuredd hwn o ran grym yw un o brif ffynonellau’r anawsterau ymarferol y mae’r ymyl ysgythrog yn eu creu.”*

**197.** Gan gyfeirio at sylwadau'r Athro Emyr Lewis, gwnaethom fynegi ein barn i’r Arglwydd Bellamy fod angen i lawer mwy gael ei wneud i oresgyn yr anawsterau ymarferol a grëir gan yr ymyl ysgythrog sy’n bodoli o fewn y system gyfiawnder yng Nghymru. Mewn ymateb, dywedodd wrthym, er ei fod yn cydnabod y gwahaniaeth sy'n cael ei nodi gan yr Athro Emyr Lewis, nad oedd Llywodraeth y DU yn credu bod anawsterau ymarferol sylweddol ac, mewn gwirionedd, fod awdurdodau a gedwir yn ôl ac awdurdodau datganoledig yn gweithio'n eithriadol o effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.”

## Data ar droseddu a chyfiawnder

**198.** Er bod yr Arglwydd Bellamy wedi dweud wrthym fod swm sylweddol o ddata cyfiawnder sy’n benodol i Gymru eisoes wedi’i gasglu a’i ddadgyfuno, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym fod diffyg data wedi’i ddadgyfuno yn un o’r pethau pwysicaf y mae’n rhaid mynd i’r afael ag ef er mwyn gallu gwerthuso canlyniadau, ac, yn ei absenoldeb, ei fod yn anodd iawn datblygu polisi cyfiawnder mewn gwirionedd.

**199.** Felly, gwnaethom ofyn i’r Arglwydd Bellamy rannu rhestr â ni o feysydd lle nad yw data sy’n benodol i Gymru yn cael eu cyhoeddi, fel y nododd Llywodraeth Cymru, ac i egluro pa rwystrau sy’n atal y Weinyddiaeth Gyfiawnder rhag cyhoeddi data o’r fath fel mater o drefn. Mewn ymateb, dywedodd yr Arglwydd Bellamy wrthym ei fod yn gobeithio gallu trafod y mater hwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol maes o law, a bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ceisio llenwi

unrhyw fylchau wrth gasglu a dadgyfuno data a allai gynorthwyo'r gwaith o weinyddu cyfiawnder yn effeithiol yng Nghymru.

**200.** Ym mis Gorffennaf 2023, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'i swyddogion wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi rhannu set o ddata gyda swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan gynnwys bylchau i'w llenwi, ac y byddent yn ein hysbysu pan gwblheir fersiwn gyhoeddedig o ddangosfyrddau data.

## Cefnogi'r sector cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder

**201.** Mae ein rhanddeiliaid wedi rhannu eu pryderon gyda ni ynghylch cefnogaeth i'r sector cyfreithiol a mynediad at gyfiawnder, a hynny mewn ymateb i dystiolaeth lafar yr Arglwydd Bellamy. Dywedodd Race Council Cymru wrthym:

- ei bod yn bosib y bydd cyflwyno gwasanaethau cyngor ar-lein yn golygu bod grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol o dan anfantais;
- bod tystiolaeth o rwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu o ran cael mynediad at gyfiawnder;
- y gall cyflwyno gwrandawiadau o bell yn gyflym effeithio'n negyddol ar gyfranogiad grwpiau penodol;
- bod rhwystrau yn parhau o ran recriwtio, cadw a datblygu gyrfaoedd unigolion o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn y proffesiwn cyfreithiol; a hefyd
- bod drwgdybiaeth ymhlith grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol o fewn y system cyfiawnder troseddol.

**202.** Gwnaethom ddwyn y pryderon hyn i sylw'r Arglwydd Bellamy mewn gohebiaeth. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

- mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi wedi ymrwymo i ddylunio a darparu gwasanaethau cynhwysol, i wella ffurflenni papur, ac i ddarparu Gwasanaeth Cymorth Digidol;
- er bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i wneud gwrandawiadau o bell mor hygyrch â phosibl, y barnwr sydd i benderfyniad p'un a yw gwrandawiad yn briodol i'w glywed o bell ai peidio. At hynny, mae ymchwil diweddar yn awgrymu mai'r un yw'r canlyniad pan ddefnyddir gwrandawiadau o bell;

- er bod y proffesiwn cyfreithiol yn annibynnol ar y Llywodraeth, mae gan reoleiddwyr y proffesiwn raglen eang o waith sydd â'r nod o annog gweithlu amrywiol, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn edrych yn fanwl i'r hyn y gellir ei wneud er mwyn gwneud gwaith cyfreithiwr ar ddyletswydd yn haws i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu; a hefyd
- mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod bod mwy y gall ei wneud i gasglu gwell data ar gymunedau ethnig leiafrifol, ac mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn datblygu dangosfwrdd gwahaniaethau ar sail hil i wella tryloywder.

### Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theuluol Caerdydd

**203.** Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad blynyddol ar hyfer 2021/22, mae llawer o'n rhanddeiliaid wedi codi eu pryderon gyda ni ynghylch seilwaith Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theuluol Caerdydd. Ar ôl ymweld â'r ganolfan ym mis Rhagfyr 2022, dywedodd yr Arglwydd Bellamy wrthym ei fod wedi gofyn i'w swyddogion ymchwilio i nifer o opsiynau ariannu ar gyfer gwaith gwella, a'i fod ef a'r Cwnsler Cyffredinol wedi cytuno i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio ystad sy'n eiddo cyhoeddus, fel swyddfeydd Llywodraeth Cymru, neu safleoedd eraill Llywodraeth y DU.

**204.** Ym mis Gorffennaf 2023, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol amlinellu'r datblygiadau diweddaraf o ran ei drafodaethau gyda'r Arglwydd Bellamy mewn perthynas â'r ganolfan. Dywedodd wrthym fod cyfyngiadau ariannol, ac nad oedd unrhyw awgrym ar hyn o bryd o fuddsoddiad sylweddol. Fodd bynnag, dywedodd, yn yr amgylchedd ôl-COVID hwn, o ran capasiti o fewn ystad y Llywodraeth, fod rhywfaint o sail dros archwilio cyfleoedd.

### Tribiwnlysoedd Cymru

**205.** Yn ei dystiolaeth i ni ym mis Mawrth 2023 ynghylch ei adroddiad blynyddol terfynol, eglurodd Syr Wyn Williams pam fod rhai o'r tribiwnlysoedd wedi cael cynnydd sylweddol mewn ceisiadau, tra bod rhai wedi gweld gostyngiad sylweddol. At hynny, rhannodd ei obaith nad oedd y gostyngiadau hyn yn awgrymu efallai na fydd pobl yn gallu cael mynediad at gyfiawnder.

**206.** O ran diwygiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i Dribiwnlysoedd Cymru, dywedodd Syr Wyn wrthym am y canlynol:

- manteision adran anweinidogol i weinyddu'r Tribiwnlysoedd;

- pwysigrwydd bod Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru; a hefyd
- manteision creu Tribiwnlys Apêl i Gymru ar gyfer y bobl hynny sy'n chwilio am ffordd i gyfiawnder.

**207.** Rhannodd Llywodraeth Cymru ei chynigion i ddiwygio Tribiwnlysoedd Cymru yn ystod ei hymgynghoriad ym mis Mehefin 2023. Dywedodd y Prif Weinidog y bydd deddfwriaeth sy'n ymwneud â system tribiwnlysoedd Cymru yn cael ei chyflwyno yn y blynyddoedd sy'n weddill o'r Senedd hwn, yn dilyn 2023/24.

## Casgliadau

### Canfyddiadau a phryderon

**208.** Er ein bod wedi gweld elfennau o weithio rhynglywodraethol effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eleni, yn enwedig o ran ymdrechion i ddadgyfuno data ar gyfiawnder yng Nghymru, serch hynny mae'n destun pryder clywed mai dim ond ar nifer gyfyngedig o argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru y mae gwaith partneriaeth yn cael ei wneud o ddifrif. Yn ein barn ni, nid yw'r lefel hon o gynnydd yn adlewyrchu'r ffaith bod pedair blynedd bellach wedi mynd heibio ers i'r Comisiwn gyhoeddi ei adroddiad.

**209.** At hynny, roedd clywed bod yr Arglwydd Bellamy yn diystyru'r syniad o 'ymyl ysgythrog' rhwng sefydliadau a gwasanaethau datganoledig a'r rhai nad ydynt wedi'u datganoli yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru i ddechrau yn destun pryder; ac mae'n amlwg bod hyn hefyd yn destun pryder i randdeiliaid. Byddwn yn parhau i ymchwilio i'r anawsterau ymarferol a ddaw yn sgil yr 'ymyl ysgythrog' gyda'n rhanddeiliaid ac yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a gweithio'n rhagweithiol gyda'r Trysorlys i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a hynny er mwyn dod o hyd i ffyrdd o rannu adnoddau'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau dull adeiladol ar y cyd o oresgyn rhwystrau sy'n bodoli o fewn system gyfiawnder yng Nghymru.

**210.** Mae'r gostyngiad ymddangosiadol mewn ceisiadau i rai o Dribiwnlysoedd Cymru hefyd wedi bod yn destun pryder i ni. Er ein bod yn obeithiol nad yw'r gostyngiadau hyn yn golygu bod pobl yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at gyfiawnder, mae'n fater y credwn y dylid ei fonitro'n agos wrth i amser fynd yn ei flaen.

## Llwyddiannau a datblygiadau cadarnhaol

**211.** Er gwaethaf ein pryderon uchod mewn perthynas â'r materion dan sylw, mae ymgysylltiad yr Arglwydd Bellamy â ni i'w groesawu: o'i bresenoldeb yn y cnawd yn ein sesiwn tystiolaeth, ei barodrwydd i glywed barn ein rhanddeiliaid ar ei dystiolaeth, a'r ohebiaeth ganddo wedi hynny. Rydym yn gobeithio gweld y lefel hon o ymgysylltu â ni a Llywodraeth Cymru yn parhau.

## Edrych tua'r dyfodol

**212.** Fel rhan o'n gwaith craffu ar faterion cyfiawnder dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gwneud y canlynol:

- ystyried adroddiad blynyddol cyntaf Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, yn enwedig unrhyw fanylion a gynhwysir ar wariant ar faterion cyfiawnder yn erbyn yr hyn a ragwelwyd yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, a gwerthusiadau o ganlyniadau'r gwariant hwnnw;
- monitro, a cheisio cyfrannu yn ôl yr angen, trafodaethau'r grŵp rhyngweinidogol ar gyfiawnder, a gwerthuso canlyniadau'r trafodaethau hynny;
- parhau i fonitro gwaith Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, yn enwedig ar dadgyfuno data ar gyfiawnder;
- monitro gwaith sy'n cael ei wneud i wella seilwaith Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theuluol Caerdydd; ac
- ymgysylltu â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Syr Gary Hickinbottom ar faterion gan gynnwys tueddiadau sy'n datblygu neu sy'n dod i'r amlwg mewn ceisiadau i Dribiwnlysoedd Cymru, ac effaith y tueddiadau hynny.

# Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Diben | Enw a Sefydliad |
|---|---|---|
| **26 Medi 2022** | **Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Ystyriaeth Gychwynnol** | **Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Green,**<br>Cadeirydd Comisiwn y Gyfraith<br>**Nicholas Paines CB,**<br>Comisiynydd y Gyfraith, ar gyfer y Gyfraith yng Nghymru<br>**Charles Mynors,**<br>Cyfreithiwr sy'n gyfrifol am brosiect Cyfraith Cynllunio yng Nghymru |
| **3 Hydref 2022** | **Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru): Gwaith craffu Cyfnod 1** | **Julie James AS,**<br>Y Gweinidog Newid Hinsawdd<br>**Nick Howard,**<br>Uwch Gyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru<br>**Richard Clark,**<br>Pennaeth Ansawdd yr Amgylchedd Lleol, Llywodraeth Cymru<br>**Hefin Gill,**<br>Cyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru |
| **10 Hydref 2022** | **Dull deddfu Llywodraeth Cymru** | **Mick Antoniw AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>**Dr. Andrew Goodall CBE,**<br>Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru |
| **14 Tachwedd 2022** | **Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Ystyriaeth Gychwynnol** | **Mick Antoniw AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>**Dylan Hughes,**<br>Prif Gwnsler Deddfwriaethol a Chyfarwyddwr Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru<br>**James George,**<br>Uwch Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **21 Tachwedd 2022** | **Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Gwaith craffu Cyfnod 1** | **Lesley Griffiths AS,**<br>Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd<br>**James Owen,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwygio Maes Rheoli Tir, Llywodraeth Cymru<br>**Dorian Brunt,**<br>Uwch-gyfreithiwr, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol – Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru<br>**William Cordingley,**<br>Cyfreithiwr y Llywodraeth, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol – Bywyd Gwyllt, Llywodraeth Cymru |
| **5 Rhagfyr 2022** | **Cyfiawnder yng Nghymru** | **Yr Arglwydd Bellamy CB,**<br>Yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>**Chris Jennings,**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru - Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi<br>**Andrew Waldren,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Hawliau, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **5 Rhagfyr 2022** | **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)** | **Mick Antoniw AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>**Lisa Marie Knight,**<br>Cyfreithiwr y Llywodraeth, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru<br>**Dr. Robert Parry,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Deddfwriaeth Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru |
| **16 Ionawr 2023** | **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25** | **Mick Antoniw AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>**James Gerard,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru<br>**Sophie Brighouse,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Thribiwnlysoedd Cymru, Llywodraeth Cymru<br>**Dr. Robert Parry,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **23 Ionawr 2023** | **Bil Bwyd (Cymru): Gwaith craffu Cyfnod 1** | **Lesley Griffiths AS,**<br>Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd<br>**David Lloyd-Thomas,**<br>Pennaeth yr Uned Polisi a Strategaeth Bwyd, Llywodraeth Cymru<br>**Claire Butterworth,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru |
| **30 Ionawr 2023** | **Bil Bwyd (Cymru): Gwaith craffu Cyfnod 1** | **Peter Fox AS,**<br>Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil<br>**Tyler Walsh,**<br>Staff Cymorth yr Aelodau<br>**Samiwel Davies,**<br>Cynghorydd Cyfreithiol Comisiwn y Senedd<br>**Aled Evans,**<br>Cynghorydd Cyfreithiol Comisiwn y Senedd |
| **13 Chwefror 2023** | **Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor** | **Mick Antoniw AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad |
| **6 Mawrth 2023** | **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Gwaith craffu Cyfnod 1** | **Eluned Morgan AS,**<br>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>**Dafydd Evans,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwyddorau Bywyd ac Arloesedd, Llywodraeth Cymru<br>**Lowri Lewis,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru<br>**Jolanta Griffiths,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru |
| **13 Mawrth 2023** | **Cyfiawnder yng Nghymru/Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru: Adroddiad Blynyddol 2021-22** | **Sir Wyn Williams,**<br>Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru<br>**Rhian Davies Rees,**<br>Pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru, Llywodraeth Cymru |
| **15 Mai 2023** | **Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau)** | **Julie James AS,**<br>Y Gweinidog Newid Hinsawdd |

| | | |
|---|---|---|
| | **(Cymru): Gwaith craffu Cyfnod 1** | **Helen Rowley,**<br>Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru<br>**Rhian Williams,**<br>Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru<br>**Olwen Spiller,**<br>Dirprwy Bennaeth Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cymru |
| **12 Mehefin 2023** | **Swyddfa'r Farchnad Fewnol** | **Murdoch MacLennan,**<br>Cadeirydd Panel Swyddfa'r Farchnad Fewnol<br>**James Waugh,**<br>Cyfarwyddwr Swyddfa'r Farchnad Fewnol |
| **19 Mehefin 2023** | **Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE** | Panel 1 |
| **26 Mehefin 2023** | **Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE** | Paneli 2 a 3 |
| **10 Gorffennaf 2023** | **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni** | **Julie James AS,**<br>Y Gweinidog Newid Hinsawdd<br>**Ed Sherriff,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Ynni, Llywodraeth Cymru |
| **10 Gorffennaf 2023** | **Gwaith craffu cyffredinol** | **Mick Antoniw AS,**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>**Sophie Brighouse,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Thribiwnlysoedd Cymru, Llywodraeth Cymru<br>**James Gerard,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru<br>**Dr. Robert Parry,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Pontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru |

# Atodiad B: Gweithio rhyngseneddol

Mae aelodau'r Pwyllgor wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd â'r pwyllgorau seneddol a ganlyn a chyrff seneddol eraill.

| Dyddiad | Pwyllgor / Corff seneddol |
|---|---|
| **28 Hydref 2022** | Fforwm Rhyngseneddol (Caerdydd) |
| **7-8 Tachwedd 2022** | Cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol (Llundain) |
| **22 Tachwedd 2022** | Ymchwiliad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin ar graffu ar gytuniadau |
| **1 Rhagfyr 2022** | Ymweliad y Pwyllgor Materion Cymreig a'r Senedd |
| **7 Rhagfyr 2022** | Pwyllgor Craffu Tŷ'r Arglwyddi ar Fframweithiau Cyffredin (hybrid) |
| **25 Ionawr 2023** | Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd - sesiwn dystiolaeth gyhoeddus / cinio i drafod gwaith (yng Nghaerdydd) |
| **2 Mawrth 2023** | Y Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant: Sut y mae datganoli yn newid ar ôl ymadael â'r UE? Ymchwiliad (rhithwir) |
| **24 Mawrth 2023** | Fforwm Rhyngseneddol (Llundain) |
| **3-4 Gorffennaf 2023** | Cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol (Brwsel) |